Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. / This document is available in English.

Bridgend County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Dechrau yn yr Ysgol 2022 – 2023

Arweiniad i drefniadau derbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer ysgolion

www.bridgend.gov.uk/cy/

Contents

Rhagair 6

1. Cyflwyniad 7

2. Gwybodaeth a chyngor 8

3. Y camau addysg 9

3.1 Addysg feithrin 9

3.2 Addysg gynradd 9

3.3 Addysg uwchradd 10

3.4 Addysg Ôl-16 10

3.5 Grwpiau blwyddyn ysgol ar gyfer 2022-2023 11

4. Y cwricwlwm newydd i Gymru 12

4.1 Trosolwg 12

4.2 Effaith ar gyfnodau addysg 12

4.3 Mwy o wybodaeth 12

5. Y awdurdod derbyn 13

6. Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr 15

7. Addysg cyfrwng Cymraeg 16

8. Sicrhau mynediad teg 18

8.1 Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol 18

8.2 Plant sydd ag anableddau 20

8.3 Plant sydd ag ymddygiad heriol 20

8.4 Pob plentyn agored i niwed neu anodd ei leoli 20

8.5 Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal 20

8.6 Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr 22

8.7 Plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion) 22

8.8 Plant y mae lleoliad yn hanfodal ar eu cyferam resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol 23

8.9 Ceisiadau a wneir ar gyfer plant nad ydynt yn ddinasyddion y DU ac nad ydynt eto'n byw yn y DU, a phlant o'r DU sy'n byw dramor 23

9. Symudiadau wedi'u rheoli 24

10. Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol/coleg 25

10.1 Cyffredinol 25

10.2 Asesu argaeledd llwybrau 26

10.3 Amgylchiadau arbennig 26

10.4 Cludiant o'r cartref i'r coleg ... 27
10.5 Y Cod Ymddygiad wrth Deithio: Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ... 27
10.6 Cludiant disgresiwn ... 27
11. Trefniadau ar gyfer darparu bwyd a diod yn ystod y diwrnod ysgol ... 29
11.1 Prydau ysgol ... 29
11.2 Talu am brydau ysgol ... 29
11.3 Clybiau brecwast ... 29
11.4 Llaeth ysgol ... 30
12. Prydau ysgol am ddim ... 31
13. Trefniadau gwisg ysgol ... 32
13.1 Polisïau ysgol ... 32
13.2 Cymorth ariannol – Grant Mynediad Datblygu Disgyblion (GDD) ... 32
14. Cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau cyhoeddus ... 34
15. Presenoldeb yn yr ysgol ... 35
16. Trefniadau derbyn i ysgolion ... 36
RHAN 1 – Trefniadau derbyn cyffredinol ... 36
1.1 Y gofyniad i wneud cais am le mewn ysgol ... 36
1.2 Pwy all wneud cais am le mewn ysgol? ... 36
1.3 Sut i ymgeisio am le mewn ysgol ... 37
1.4 Dewis ysgol ... 38
1.5 Trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill ... 40
1.6 Cyfeiriad y plentyn / man preswylio arferol y plentyn ... 40
1.7 Ceisiadau a wneir ar sail newid i'r man preswylio yn y dyfodol ... 42
1.8 Brodyr a chwiorydd ... 42
1.9 Plant aml-enedigaeth ... 43
1.11 Pellter i'r ysgol ... 44
1.12 Gwybodaeth neu amgylchiadau nad yw'r awdurdod lleol yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau derbyn ... 44
1.13 Ceisiadau i dderbyn plentyn y tu allan i'w grŵp oedran cronolegol ... 45
1.14 Capasiti ysgolion ... 45
1.15 Terfyn ar gyfer maint dosbarthiadau babanod ... 46
1.16 Ceisiadau hwyr (cylchoedd derbyn) ... 47
1.17 Hysbysu ynghylch y penderfyniad ... 48
1.18 Rhestrau aros ... 48
1.19 Cydraddoldebau ... 49
1.20 Diogelu data ... 49

RHAN 2 – Cylchoedd derbyn meithrin 50
2.1 Cyffredinol 50
2.2 Y cylch derbyn Meithrin Amser Llawn 51
2.3 Y cylch derbyn Meithrin Ran Amser 53
RHAN 3 – Cylchoedd derbyn (statudol) arferol 59
3.1 Cylch derbyn i ysgol gynradd/fabanod (blwyddyn derbyn) 59
3.2 Cylch derbyn i ysgol iau (Blwyddyn 3) 62
3.3 Cylch derbyn i ysgol uwchradd (Blwyddyn 7) 64
RHAN 4 – Derbyniadau Ôl-16 68
4.1 Chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol 68
4.2 Sefydliadau addysg bellach eraill 68
RHAN 5 – Derbyniadau / trosglwyddiadau ar ganol blwyddyn 69
5.1 Amgylchiadau pan fo'n ofynnol i wneud cais derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn 69
5.2 Trosglwyddiadau ysgol 69
5.3 Ceisiadau ymlaen llaw 69
5.4 Nifer y lleoedd sydd ar gael 70
5.5 Ystyried ceisiadau 70
5.6 Cyfathrebu'r canlyniad 71
5.7 Cynnig lle mewn ysgol arall 71
5.8 Rhestrau aros 71
RHAN 6 – Polisïau derbyn 2022-2023 ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir 73
6.1 Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis 73
6.2 Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair 77
6.3 Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig 79
6.4 Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert 82
6.5 Ysgol Uwchradd Gatholig Yr Archesgob McGrath 85
RHAN 7 – Apeliadau Derbyn 87
7.1 Addysg feithrin 87
7.2 Addysg statudol 87
7.3 Addysg (chweched dosbarth) ôl-16 87
7.4 Ystyried a ddylid apelio 87
7.5 Apelio 88
7.6 Cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn gan ysgol wirfoddol a gynorthwyir 89
7.7 Y broses apeliadau derbyn annibynnol 90

7.8 Apelio am yr eildro 91
7.9 Apelau a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021 92
17. Gwybodaeth am ysgolion, cysylltiadau a derbyniadau 93
17.1 Ysgolion cynradd - cymunedol - cyfrwng Saesneg 93
17.2 Ysgolion cynradd – a reolir yn wirfoddol – cyfrwng Saesneg 103
17.3 Ysgolion cynradd – gwirfoddol a gynorthwyir - cyfrwng Saesneg 103
17.4 Ysgolion cynradd – cymunedol – cyfrwng Cymraeg 105
17.5 Ysgolion uwchradd - cymunedol – cyfrwng Saesneg 106
17.6 Ysgolion uwchradd - a reolir yn wirfoddol – cyfrwng Saesneg 108
17.7 Ysgolion uwchradd – cymunedol – cyfrwng Cymraeg 108

Rhagair

Annwyl Riant/Ofalwr,

Mae rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol i roi cyfle i rieni/gofalwyr fynegi'r hyn sydd orau ganddynt wrth ddewis ysgol ar gyfer eu plentyn/plant. Dyma un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch yn eu gwneud ar ran eich plentyn. Paratowyd y ddogfen wybodaeth hon i'ch cynorthwyo gyda'n penderfyniadau.

Fel rhiant/gofalwr, mae gennych hawl i ddisgwyl i'ch plentyn gael addysg dda, ond mae eich diddordeb yng ngwaith eich plentyn yn yr ysgol yr un mor bwysig, gan y bydd hyn yn rhoi anogaeth i'r ysgol ac yn ategu ymdrechion athrawon. Fe'ch anogaf i gymryd rhan yng nghymdeithas rieni eich ysgol, a fydd yn rhoi cyfle i chi ymwneud yn fwy clòs â'r ysgol.

Efallai y bydd o ddiddordeb i chi wybod bod cynrychiolwyr o blith rhieni ar gorff llywodraethu pob ysgol a bod y rhain yn cael eu hethol gan y rhieni eu hunain, bob pedair blynedd fel arfer. Bob blwyddyn, byddwch yn cael adroddiad ysgrifenedig am y gwaith a wnaed gan gorff llywodraethu'r ysgol a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal i roi cyfle i rieni drafod yr adroddiad hwn gyda'r llywodraethwyr.

Gobeithio y bydd eich plentyn/plant yn ymgartrefu'n rhwydd yn eu hysgol newydd ac y byddant yn cael sawl budd o'r cyfleoedd a gynigir.

Hyderwn y bydd y llyfryn hwn yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol ac y bydd yn hybu dealltwriaeth well rhyngoch chi a'r gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd.

Mr Lindsay Iorwerth HarveyP
Cyfarwyddwr Corfforaethol,
Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell
Aelod Cabinet dros
Addysg

1. Cyflwyniad

Rydym ni am i sir Pen-y-bont ar Ogwr fod yn lle da i fod yn blentyn neu berson ifanc, neu i fagu teulu. Trwy ein hysgolion a'n gwasanaethau addysg a chymorth i deuluoedd, rydym am helpu'r holl blant a phobl ifanc:

- i ffynnu a manteisio i'r eithaf ar eu doniau;
- i fyw bywydau iach a diogel;
- i fod yn unigolion hyderus a gofalgar; and
- i wybod beth yw eu hawliau a derbyn yr hawliau hynny.

Rhieni/gofalwyr yw athrawon cyntaf a pharhaus pob plentyn. Maent yn cyflawni rôl hollbwysig o ran helpu eu plant i ddysgu. Dylai'r rôl hon barhau ac ymestyn pan fo plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Mae ein hysgolion yn cynnig ystod o brofiadau a chyfleoedd dysgu o ansawdd, ond er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd hyn a helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial, mae'n bwysig bod rhieni/gofalwyr yn ffurfio partneriaeth gynhyrchiol a chefnogol gyda staff yr ysgol, gan ddechrau trwy sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol.

Mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y cartref a'r ysgol yn rhan hanfodol o'r bartneriaeth, sy'n helpu plant a phobl ifanc i lwyddo.

Mae'r prosbectws hwn wedi'i fwriadu i roi gwybodaeth gyffredinol i rieni/ofalwyr am ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Pen-y-bont ar Ogwr ac, yn fwy penodol, am y trefniadau derbyn ac apelio sy'n berthnasol i'r ysgolion hynny.

Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth a allai fod o gymorth i rieni/ofalwyr ddewis ysgol. Mewn rhai rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr, am ystod o resymau, mae pwysau ar y lleoedd mewn ysgolion. Golyga hyn, yn yr ardaloedd hynny, ei bod yn bosib na fydd rhieni/gofalwyr wastad yn llwyddo i gael lle mewn ysgol a ffefrir.

2. Gwybodaeth a chyngor

Rheolir derbyniadau i ysgolion gan y Gwasanaethau Disgyblion o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am faterion derbyn i ysgolion, neu os hoffech gynnig adborth am y prosbectws hwn neu'r broses dderbyn ar y cyfan, byddai'n dda gennym glywed gennych.

Cysylltwch â:

Gwasanaethau Disgyblion
Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Ffôn: 01656 642622

E-bost: pupilservices@bridgend.gov.uk.

3. Y camau addysg

3.1 Addysg feithrin

Mae addysg feithrin yn anstatudol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau lle rhan-amser, am ddim i blant tair oed cymwys gael addysg y blynyddoedd cynnar o'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Gall y lle fod mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, neu yn y sector nas cynhelir gyda darparwr blynyddoedd cynnar cofrestredig.

Nid yw'r prosbectws hwn yn berthnasol ac eithrio i dderbyniadau i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Ar gyfer unrhyw riant / gofalwr sy'n dymuno archwilio trefniadau amgen i Feithrin Amser Llawn mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, mae gwybodaeth am y Cynnig Gofal Plant i Gymru ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

3.2 Addysg gynradd

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel arfer caiff yr holl blant eu derbyn i ddosbarth derbyn yn y mis Medi ar ôl eu pedwerydd pen-blwydd. Fodd bynnag, mae gan rieni/gofalwyr yr opsiwn o ohirio mynediad eu plentyn i'r flwyddyn dderbyn tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth yn RHAN 3, adran 3.1. Dylai rhieni/gofalwyr nodi bod y Cwricwlwm newydd i Gymru yn gwricwlwm di-dor ar gyfer plant 3 i 16 oed, gan ddechrau'r tymor yn dilyn trydydd pen-blwydd plentyn. Byddai gohirio yn arwain at fwlch yn y ddarpariaeth gan achosi diffyg parhad yn addysg gynnar plentyn.

Mewn ysgolion cynradd, mae'r adran fabanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) a'r adran iau (Blynyddoedd 3 i 6) yn rhan o'r un ysgol ac mae plant yn symud ymlaen drwy'r ysgol o'r adran fabanod i'r adran iau heb orfod trosglwyddo i rywle arall.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae dwy ysgol fabanod:

- Ysgol Fabanod Bryntirion; ac
- Ysgol Fabanod Cefn Glas.

Bydd angen i blant yn yr ysgolion hyn drosglwyddo i ysgol iau neu i adran iau mewn ysgol gynradd, ar ddiwrnod cyntaf tymor yr hydref yn dilyn eu pen-blwydd yn saith oed.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae un ysgol iau, hy Ysgol Iau Llangewydd.

Nid oes plant yn cael eu derbyn yn awtomatig i un o'r ysgolion babanod i Ysgol Iau Llangewydd. Mae angen i rieni / gofalwyr plant o'r fath lenwi ffurflen gais rownd mynediad Blwyddyn 3 Ysgol Iau i ofyn am le yn eu hysgol yn yr ysgol.

Os nad yw'r rhieni/gofalwyr yn dymuno i'w plentyn fynychu Blwyddyn 3 mewn ysgol iau ac yn hytrach eu bod nhw'n dymuno i'w plentyn fynychu Blwyddyn 3 mewn ysgol gynradd safonol, mae'n rhaid iddynt gyflwyno cais am dderbyniad/drosglwyddiad yn ystod y flwyddyn. (Darperir gwybodaeth bellach yn RHAN 3, adran 3.2.) Dylai rhieni/gofalwyr nodi y gall lleoedd Blwyddyn 3 mewn ysgol gynradd safonol fod yn gyfyngedig iawn neu beidio â bod ar gael. Hefyd, ni fydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau mewn cysylltiad â cheisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn i ddechrau ym mis Medi 2022 tan Pasg 2022.

3.3 Addysg uwchradd

Fel arfer mae plant yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn dilyn eu hunfed pen-blwydd ar ddeg (Blwyddyn 7). Mae angen i rieni/gofalwyr y plant hynny gwblhau cais derbyn i ysgol er mwyn gofyn am le i'w plentyn ar adeg trosglwyddo. (Darperir gwybodaeth bellach yn RHAN 3, adran 3.3.)

3.4 Addysg Ôl-16

Mae addysg ôl-16 yn anstatudol. Mae ar gael yn eang trwy unedau chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a sefydliadau addysg bellach eraill. (Darperir gwybodaeth bellach yn RHAN 4.)

3.5 Grwpiau blwyddyn ysgol ar gyfer 2022-2023

Cyfnod a cam		Blwyddyn neu garfan	Oedran yn ystod 2022-2023	Dyddiad geni rhwng
CYNRADD	MEITHRIN	Meithrin Ran Amser–derbyniad Ebrill 2022	3	01.01.2020 – 31.03.2020
		Meithrin Ran Amser–derbyniad Ionawr 2022	3	01.09.2019 – 31.12.2019
		Meithrin Amser Llawn	3 - 4	01.09.2018 – 31.08.2019
	SYLFAEN	Derbyn	4 - 5	01.09.2017 – 31.08.2018
		Blwyddyn 1	5 - 6	01.09.2016 – 31.08.2017
		Blwyddyn 2	6 - 7	01.09.2015 – 31.08.2016
	CYFNOD ALLWEDDOL 2	Blwyddyn 3	7 - 8	01.09.2014 – 31.08.2015
		Blwyddyn 4	8 - 9	01.09.2013 – 31.08.2014
		Blwyddyn 5	9 - 10	01.09.2012 – 31.08.2013
		Blwyddyn 6	10 - 11	01.09.2011 – 31.08.2012
UWCHRADD	CYFNOD ALLWEDDOL 3	Blwyddyn 7	11 - 12	01.09.2010 – 31.08.2011
		Blwyddyn 8	12 - 13	01.09.2009 – 31.08.2010
		Blwyddyn 9	13 - 14	01.09.2008 – 31.08.2009
	CYFNOD ALLWEDDOL 4	Blwyddyn 10	14 - 15	01.09.2007 – 31.08.2008
		Blwyddyn 11	15 - 16	01.09.2006 – 31.08.2007
	CYFNOD ALLWEDDOL 5	Blwyddyn 12	16 - 17	01.09.2005 – 31.08.2006
		Blwyddyn 13	17 - 18	01.09.2004 – 31.08.2005

4. Y cwricwlwm newydd i Gymru

4.1 Trosolwg

Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei ddysgu i'r rheini hyd at Flwyddyn 6 o fis Medi 2022. Bydd dysgwyr Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 yn cael eu haddysgu gyda'r cwricwlwm newydd o 2023 ac yna bydd yn cael ei gyflwyno o flwyddyn i flwyddyn nes ei fod yn cynnwys Blwyddyn 11 erbyn 2026. Felly, bydd y cwricwlwm presennol yn cael ei ddysgu i bob dysgwr ym Mlynyddoedd 7 i 11 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

4.2 Effaith ar gyfnodau addysg

O dan y cwricwlwm newydd, bydd cyfnodau allweddol 2, 3 a 4 yn dod i ben. Bydd egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair i saith oed yn parhau, hy annog plant i fod yn greadigol, yn ddychmygus ac i gael hwyl wrth wneud dysgu'n fwy effeithiol a dysgu trwy chwarae fel ffocws penodol. Fodd bynnag, byddant yn dod yn rhan o un cwricwlwm di-dor ar gyfer plant rhwng 3 ac 16 oed, gan ddarparu mwy o ddysgu cydgysylltiedig.

Bydd camau dilyniant ar waith yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed, yn ymwneud â disgwyliadau eang o gynnydd plentyn.

Nid yw'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru yn berthnasol i'r ddwy flynedd o addysg (Blynyddoedd 12 a 13) a wneir gan ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed, mewn chweched dosbarth ysgol (cam allweddol 5).

4.3 Mwy o wybodaeth

Os hoffech wybod mwy am y cwricwlwm newydd, ewch i:

https://llyw.cymru/mae-addysg-yn-newid

5. Y awdurdod derbyn

Caiff mynediad plant i darpariaeth addysg brif ffrwd mewn ysgolion ei reoli a'i weinyddu gan 'awdurdod derbyn'. Yn achos ysgolion cymunedol, yr awdurdod lleol yw hwn, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn unol â'r Rheoliadau Addysg (Ardaloedd Perthnasol ar gyfer Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn) 1999, yr ardal berthnasol ar gyfer yr awdurdod lleol yw ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pan fo'r awdurdod lleol yn gweithredu fel yr awdurdod derbyn, yr awdurdod lleol sy'n gwneud yr holl benderfyniadau ar geisiadau am fynediad i'r ysgol. Mae dyletswydd ar gorff llywodraethu'r ysgol i weithredu penderfyniadau yr awdurdod lleol ynglŷn â cheisiadau, ac i weithredu yn unol â threfniadau derbyn yr awdurdod lleol.

Ceidw'r awdurdod lleol yr hawl i ddiwygio'i weithdrefnau derbyn ar gyfer addysg statudol ac anstatudol, os oes angen, ac fel a ganiateir gan y ddeddfwriaeth berthnasol.

Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr un ysgol wirfoddol a reolir yn y fwrdeistref sirol, sef Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen y Fai.

Yn y fwrdeistref sirol, mae pum ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a gyllidir i raddau helaeth gan yr awdurdod lleol. Corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw'r awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau derbyn.

Y pum ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn y fwrdeistref sirol yw:

1. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Pen-y-bont;
2. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig, Maesteg;
3. Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Robert, Abercynffig;
4. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Archddiacon John Lewis, Pen-y-bont; a
5. Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath.

Caiff y polisïau derbyn ar gyfer y pum ysgol hon eu nodi yn RHAN 6. Dylai'r rhieni/gofalwyr sy'n dymuno bod eu plentyn/plant yn cael eu derbyn i'r ysgolion hyn gysylltu â'r ysgol berthnasol i gael rhagor o wybodaeth.

Nid oes unrhyw drefniadau gan yr awdurdod lleol ar gyfer darpariaeth addysg mewn ysgolion nas cynhelir gan yr awdurdod lleol.

Nid yw Polisi Derbyn Ysgol 2022-2023 yr awdurdod lleol yn delio â derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac arbennig i ddarpariaethau arbenigol sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion Cymunedol.

Mae'r ddwy ysgol arbennig yn y fwrdeistref sirol yn ganolfannau rhanbarthol gyda disgyblion yn cael eu derbyn o awdurdodau lleol cyfagos. Nid yw derbyniadau i'r ysgolion hyn wedi'u cynnwys yn y darpariaethau ym Mholisi'r awdurdod lleol ar Dderbyn i Ysgolion 2022-2023 ac nid ydynt yn ddarostyngedig i'r rhain ychwaith.

6.Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i sefydlu fforwm derbyniadau.

Mae cyfansoddiad Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol ag Atodiad D o'r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013.

Swyddogaeth y fforwm yw helpu i sicrhau bod y system derbyniadau ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn deg, yn syml ac yn hawdd i rieni/ofalwyr ei deall. Mae'r fforwm yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad yr awdurdod lleol â'r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013 a gall y fforwm gynghori'r awdurdod lleol ar ffyrdd y gellid gwella trefniadau derbyn.

Cyhoeddir cylch gwaith, agendâu cyfarfodydd, cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau blynyddol Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr ar wefan yr awdurdod lleol.

7. Addysg cyfrwng Cymraeg

Mae pedair ysgol gynradd Gymraeg a'r un ysgol uwchradd Gymraeg yn y fwrdeistref sirol i bob disgybl y mae'u rhieni/gofalwyr yn dewis y cyfrwng addysg hwnnw ar eu cyfer. Yr ysgolion yw:

- Ysgol Cynwyd Sant, Maesteg.
- Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd, Pontycymmer.
- Ysgol y Ferch o'r Sgêr, Gogledd Corneli.
- Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr.
- Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Maesteg

Gallwch lawrlwytho llyfryn sy'n esbonio mwy am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg a mae cymhwysedd ar gyfer cludiant cartref-i-ysgol

Rheolir trefniadau derbyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr trwy ddefnyddio'r darpariaethau a'r meini prawf a nodir yn y Polisi Derbyniadau Ysgolion 2022-2023.

Nid oes ardaloedd dalgylch ar gyfer ysgolion Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae cymhwysedd ar gyfer cludiant carterf-i-ysgol am ddim yn berthnasol lle mae man preswylio cyffredin y plentyn fwy na dwy filltir o'r ysgol gynradd Gymraeg **agosaf** neu dair milltir o'r ysgol uwchradd Gymraeg **agosaf**.

Gall rhiant / gofalwr wneud cais am le i'w plentyn mewn unrhyw ysgol Gymraeg yn y sir. Fodd bynnag, os yw rhiant / gofalwr yn dewis gwneud cais am le mewn ysgol Gymraeg nad hi yw'r ysgol Gymraeg agosaf at le preswylio cyffredin y plentyn, a bod y cais hwnnw'n llwyddiannus, **nid** oes hawl i gludiant cartref i'r ysgol am ddim i'r ysgol y gofynnwyd amdani, waeth beth yw'r pellter. Mae hyn yn berthnasol i geisiadau rownd derbyn a cheisiadau derbyn / trosglwyddo yn ystod y flwyddyn

Ar gyfer ceisiadau rownd derbyn, os yw rhiant / gofalwr yn gwneud cais am le i'w plentyn yn yr ysgol gyfrwng Gymreig agosaf fel dewis cyntaf, ac **nid** yw'r cais hwnnw'n llwyddiannus, ar unwaith bydd yr awdurdod lleol yn ystyried y cais am yr ysgol ail ddewis a gofnodwyd gan y rhiant / gofalwr. Os nad yr ysgol ail ddewis yw'r ysgol Gymraeg agosaf agosaf at le preswylio cyffredin y plentyn, a bod y cais hwnnw'n llwyddiannus, **nid** oes hawl i gludiant cartref i'r ysgol am ddim i'r ysgol ail ddewis honno, waeth beth yw'r pellter. Os mai'r ail ysgol ddewisol **yw**'r ysgol Gymraeg agosaf agosaf at le preswylio cyffredin y plentyn, a bod y cais hwnnw'n llwyddiannus, mae

cymhwysedd ar gyfer cludiant cartref-i'r-ysgol am ddim yn berthnasol os yw'r meini prawf pellter (y manylir uchod) yn cael eu bodloni. Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol os bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried cais am ysgol trydydd dewis.

Os nad yw cais am ysgol dewis cyntaf yn llwyddiannus ac nad yw rhiant / gofalwr wedi cofnodi unrhyw ysgol a ffefrir arall ar y cais, ni ellir cynnig lle ysgol i'r plentyn ar y 'diwrnod cynnig'. Bydd angen i riant / gofalwr gysylltu â'r awdurdod lleol ar ôl y diwrnod cynnig ar gyfer ysgol arall.

Ar gyfer ceisiadau derbyn / trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, os yw'r cais am yr ysgol Gymraeg agosaf ac **nad** yw'r cais hwnnw'n llwyddiannus, bydd yr awdurdod lleol yn cynnig lle yn awtomatig yn yr ysgol Gymraeg nesaf agosaf sydd ag argaeledd yn y grŵp blwyddyn plenty. Bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn berthnasol os yw'r meini prawf pellter (y manylir arnynt uchod) yn cael eu bodloni. Os na dderbynnir cynnig lle yn yr ysgol Gymraeg nesaf agosaf, bydd y rhiant / gofalwr yn gyfrifol am gludiant i unrhyw ysgol Gymraeg arall a ddewisir.

8. Sicrhau mynediad teg

8.1 Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar anghenion dysgu ychwanegol i rieni a gofalwyr

Mae ystod o adnoddau gwybodaeth ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

Polisi'r awdurdod lleol yw addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gyda disgyblion eraill sydd yr un oedran â hwy yn eu cymuned leol pryd bynnag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fo'n rhaid i'r ddarpariaeth arbenigol sy'n ofynnol er mwyn diwallu rhai anghenion gael ei rhoi mewn cyfleusterau dynodedig arbennig, o bosibl y tu allan i'r gymuned leol ac, mewn rhai amgylchiadau eithriadol, y tu allan i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff pob achos ei ystyried yn unigol.

Yng nghyd-destun y polisi, mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i'r egwyddorion cyffredinol canlynol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

1. Darparu cyfleoedd addysgol o ansawdd ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, a chydnabod eu hawl i fynediad cyfartal at addysg eang, gytbwys a pherthnasol ni waeth beth fo'u rhyw, eu hil na'u hangen arbennig.

2. Rhoi cyngor, arweiniad, cymorth a hyfforddiant priodol i lywodraethwyr, penaethiaid a staff o ran eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

3. Cydnabod y gall disgybl, ar unrhyw adeg, fod ag anghenion addysgol y bydd angen darpariaeth addysgol arbennig er mwyn eu diwallu.

4. Cyflwyno continwwm hyblyg o ddarpariaeth addysgol arbennig sydd wedi'i bwriadu i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion unigol. O fewn y continwwm hwn o ddarpariaeth arbennig cydnabyddir y bydd anghenion y mwyafrif o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu yn eu ysgol gan ddefnyddio adnoddau'r ysgol. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y ceir disgyblion y mae eu hanghenion dysgu ychwanegol yn golygu bod angen darpariaeth ychwanegol neu wahanol.

5. Fel gyda'r holl drefniadau derbyn eraill, yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer darpariaeth addysgol arbennig.

6. Cynnal ystod o wasanaethau canolog sy'n cynnwys athrawon arbenigol a seicolegwyr addysg o fewn y Gwasanaeth Cynhwysiant i roi cymorth i asesu, monitro a gwerthuso darpariaeth arbenigol.

7. Ymrwymiad i'r egwyddor o gynhwysiant, sy'n rhoi ystyriaeth i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

8. Caiff anghenion ychwanegol plant, gan gynnwys plant o oedran cyn ysgol, eu hadnabod a'u hasesu, a chaiff darpariaeth briodol ei threfnu cyn gynted â phosibl. Caiff hon wedyn ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd.

9. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i gyfranogi yn y broses o adnabod ac asesu anghenion dysgu ychwanegol eu plentyn a darparu ymyrraeth er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Bydd penderfyniadau o ran sut a ble y gellid diwallu anghenion ychwanegol plentyn yn cynnwys y rhieni ac yn ystyried safbwyntiau'r disgybl ei hun. Bydd y broses yn cynnwys rhoi arweiniad ynghylch hawliau statudol, a ffyrdd y gall rhieni weithio mewn partneriaeth gydag ysgol eu plentyn.

10. Caiff pwysigrwydd cyswllt effeithiol ag asiantaethau eraill, yn rhai statudol a gwirfoddol, ei gydnabod wrth benderfynu ar natur anghenion dysgu ychwanegol disgybl, a'r ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i ymateb i'r anghenion hynny.

11. Ystyrir mai cyfrifoldeb y gwasanaethau iechyd lleol yn bennaf yw darparu cyngor, arweiniad a chymorth mewn perthynas â meddygaeth, nyrsio a pharafeddygaeth.

12. Cydnabod dyletswydd yr awdurdod lleol yn ei rôl cynllunio strategol i fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu'r ddarpariaeth addysg arbennig.

Trefniadau derbyn ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol

Nid yw'r Cod Derbyn i Ysgolion 2013 ar gyfer Cymru yn berthnasol i dderbyn plant i ddarpariaeth addysg y tu allan i'r brif ffrwd. Yn unol â hynny, nid yw'r trefniadau derbyn i ysgolion a nodir yn y prosbectws hwn yn berthnasol i ddarpariaethau o'r fath.

Pan mai ysgol gymunedol yw'r lleoliad a enwir ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y plentyn i'r ysgol hwnnw.

Bydd ceisiadau sy'n ymwneud â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig (ond heb ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol) o'r fath yn cael eu

hystyried yn yr un modd â phob cais ar sail y gweithdrefnau a'r meini prawf derbyn a osodwyd yn y polisi hwn.

Os ydy plentyn yn cael ei asesu yn rhan o'r broses statudol ar gyfer datganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, ac yn ddiweddarach, bydd yr awdurdod lleol yn casglu y dylai'r plentyn fod â datganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, bydd y lleoliad ysgol priodol yn cael ei drafod yn rhan o'r broses statudol honno.

8.2 Plant sydd ag anableddau

Bydd yr awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd addasiadau rhesymol sy'n ddyledus i ddisgyblion anabl, fel y diffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

8.3 Plant sydd ag ymddygiad heriol

Ni fydd yr awdurdod lleol yn gwrthod derbyn plentyn ar sail ei ymddygiad. Bydd y plant hyn yn cynnwys y rhai hynny sydd â'r potensial i fod yn aflonyddgar, arddangos ymddygiad heriol neu'r rhai hynny y gellid ystyried y mae angen asesiad ar gyfer anghenion addysgol arbennig arnyn nhw.

Ar ôl derbyn, gall ysgol ystyried camau disgyblu fel y bo'n briodol, mewn ymateb i ymddygiad heriol. Fodd bynnag, gall plant sy'n arddangos ymddygiad heriol fod yn anabl yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 a bydd angen gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer yn yr ysgol.

8.4 Pob plentyn agored i niwed neu anodd ei leoli

Bydd darpariaethau'r Polisi Derbyniadau Ysgolion 2022-2023 hwn yn berthnasol. Fodd bynnag, yn unol â'r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013, mae'n awdurdod lleol gynnal gweithdrefnau mynediad teg i blant o'r fath a mae gan banel sydd â'r swyddogaeth o argymell lleoliadau a all ddiwallu anghenion y plant hyn.

8.5 Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal

Mae'r canlynol yn berthnasol hyd yn oed pan mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r rhiant corfforaethol.

Ceisiadau mewn perthynas â cylchoedd derbyn meithrin a chylchoedd derbyn (statudol) arferol

Caiff ceisiadau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal eu blaenoriaethu o dan y meini prawf gordanysgrifio perthnasol, **yn amodol ar y canlynol:**

1. Bod y rhiant corfforaethol (h.y. yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ofal y plentyn) yn cwblhau ac yn cyflwyno'r cais ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, a bod tystiolaeth ategol yn cael ei chyflwyno hefyd (Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro).
2. Bod y cais ar gyfer plentyn sydd wedi derbyn gofal yn cael ei ddanfon gyda thystiolaeth ategol gan y rhiant corfforaethol gynt.

Ceisiadau am dderbyn/trosglwyddiad yn ystod y flwyddyn

Yn unol â'r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013, pan fo ymgais i wneud cais derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid i'r rhiant corfforaethol ymgynghori â'r awdurdod lleol cyn cyflwyno'r cais. Mae hyn i sicrhau addasrwydd yr ysgol a ffefrir o ystyried cefndir ac amgylchiadau'r plentyn. Mae hefyd yn ofynnol cynnal yr ymgynghoriad hwn a chwblhau cais mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal sydd wedi eu gwahardd yn barhaol o ddau neu fwy o ysgolion.

Hefyd, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal sydd wedi ei wahardd o ddau neu fwy o ysgolion, mae'n rhaid i'r rhiant corfforaethol ymgynghori hefyd â chorff llywodraethu'r ysgol a nodwyd.

Yn y ddau achos, nid oes angen i'r ymgynghoriad fod yn feichus.

Ar gyfer ceisiadau trosglwyddo/derbyn yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, bydd lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol y cytunwyd arni a bydd eithriad i'r terfyn maint dosbarthiadau babanod yn cael ei roi ar waith (os yw'n berthnasol), **ar yr amod** bod y cais yn cael ei gwblhau a'i ddanfon gan y rhiant corfforaethol a bod tystiolaeth ategol yn cael ei darparu (Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro).

Ar gyfer ceisiadau trosglwyddo/derbyn yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â phlant sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol, bydd lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol a ffefrir a bydd eithriad i'r terfyn maint dosbarthiadau babanod yn cael ei roi ar waith (os yw'n berthnasol), **ar yr amod** bod tystiolaeth ategol yn cael ei darparu gyda'r cais gan y rhiant corfforaethol gynt.

Mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth ategol a nodwyd uchod gyda'r cais.

8.6 Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Wrth ystyried ceisiadau derbyn sy'n ymwneud â phlant Sipsiwn a Theithwyr, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 003/2008 (Symud Ymlaen – Addysg i Deithwyr Sipsiwn) ac adrannau 3.25 a 3.26 o'r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013.

8.7 Plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)

Mae 'personél lluoedd arfog y DU' yn cyfeirio at bobl sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog. 'Gweision y Goron' yw swyddogion llywodraeth y DU, gan gynnwys diplomyddion.

Nid oes hawl awtomatig i le yn yr ysgol a ffefrir ar gyfer plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron.

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cyfeiriad post 'uned' ar gyfer ceisiadau gan bersonél y lluoedd arfog sy'n gwasanaethu os nad oes cyfeiriad postio cartref newydd.

Ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â cylchoedd derbyn meithrin a chylchoedd derbyn (statudol) arferol, bydd yr awdurdod lleol yn trin plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron fel pe byddant eisoes yn preswylio yn y cyfeiriad yn y dyfodol **ar yr amod** bod y cais yn cael ei gyflwyno gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd. Bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu lle ysgol yn unol â'r meini prawf perthnasol ar gyfer y cylch derbyn.

Mewn cysylltiad â cheisiadau derbyn/trosglwyddo ar gyfer plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision y Goron sy'n gwasanaethu:

- bydd y plant hynny yn derbyn 'statws eithrio' at ddibenion terfynau maint dosbarthiadau babanod (os yw'n berthnasol), os ydynt yn cael eu derbyn i'r ysgol a ffefrir;
- os bydd y cais yn aflwyddiannus a gwrthodir lle yn yr ysgol a ffefrir, gall y rhieni/gofalwyr apelio yn erbyn y penderfyniad a bydd unrhyw wrandawiad apêl yn cael ei glywed fel apêl niwed cyffredin.

Bydd ceisiadau ar gyfer plant pobl oedd gynt yn bersonél lluoedd arfog y DU neu Weision y Goron yn cael eu trin fel pob cais arall.

8.8 Plant y mae lleoliad yn hanfodal ar eu cyferam resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol

I fodloni'r maen prawf hwn:

1. mae'n **rhaid** i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ategol gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig neu weithiwr cymdeithasol sy'n nodi'r rhesymau pam mai'r ysgol a enwir yw'r ysgol fwyaf addas a pha anawsterau fyddai'n codi pe byddai'n rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth fod wedi'i dyddio tri mis neu lai cyn dyddiad cyflwyno'r cais; **a**

2. bod y dystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei derbyn gan yr awdurdod lleol fel un sy'n ddigonol i benderfynu bod lleoliad yn yr ysgol a ffefrir yn hanfodol i'r plentyn.

Nid yw tystiolaeth sy'n cadarnhau diagnosis neu amgylchiadau plentyn yn unig yn bodloni'r maen prawf hwn.

Ystyrir ceisiadau ar gyfer gofalwyr ifanc o dan y maen prawf hwn yn amodol ar ddarparu'r dystiolaeth ofynnol fel y nodir uchod.

Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl bod yr ymgeisydd yn darparu'r dystiolaeth ofynnol ar yr adeg y cyflwynir y cais. Os nad yw hynny'n bosibl, mae'n rhaid bod yr awdurdod yn cael gwybod am hyn a'i fod yn fodlon â'r rhesymau ac yna mae'n rhaid darparu'r dystiolaeth ofynnol cyn dyddiad cau y cylch derbyn. **Pe na ddarperir y dystiolaeth ofynnol i'r awdurdod lleol cyn cau y cylch derbyn, ni fydd y cais yn cael ei flaenoriaethu o dan y maen prawf hwn.**

8.9 Ceisiadau a wneir ar gyfer plant nad ydynt yn ddinasyddion y DU ac nad ydynt eto'n byw yn y DU, a phlant o'r DU sy'n byw dramor

Bydd yr awdurdod lleol yn trin ceisiadau ar gyfer y plant hyn ar sail unigol ac yn unol â holl ddeddfwriaeth/ofynion Llywodraeth Cymru, deddfwriaeth y DU a rheolau'r Swyddfa Gartref sy'n berthnasol adeg y cais. Hefyd, unrhyw gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a all fod yn berthnasol i'r DU.

- Dylid disgwyl y bydd yr awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am ystod o ffactorau perthnasol, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i:pa un a yw'r cais am ganiatâd i ddod i mewn i'r DU wedi neu'n mynd i fod yn llwyddiannus;
- os yn berthnasol, ar ba delerau y caniatawyd mynediad i'r DU; a hefyd
- y dyddiad pan fo disgwyl i'r plentyn fod yn preswylio yn y DU.

9.Symudiadau wedi'u rheoli

Mae gan yr awdurdod lleol bolisi ar wahân ar gyfer symudiadau (trosglwyddiadau) disgyblion rhwng ysgolion wedi'u rheoli.

Mae symudiadau wedi'u rheoli yn cael eu trin yn wahanol i dderbyniadau arferol. Bydd y disgybl yn aros ar gofrestr yr ysgol bresennol yn ystod y cyfnod symud wedi'i reoli. Ar ddiwedd y cyfnod symud wedi'i reoli, os bu'r symud wedi'i reoli yn llwyddiannus, bydd y disgybl yn cael ei roi ar gofrestr yr ysgol newydd. Os na fu'r symud wedi'i reoli yn llwyddiannus, bydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol wreiddiol.

Nid yw'r Polisi Symud Wedi'i Reoli yn berthnasol mewn unrhyw achos pan fo'r rhiant/gofalwr yn cwblhau cais derbyn i ysgol; y Polisi Derbyniadau Ysgolion sy'n berthnasol ymhob achos o'r fath.

10. Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol/coleg

10.1 Cyffredinol

Ceir gwybodaeth gryno isod ac argymhellir bod rhieni/gofalwyr/dysgwyr yn darllen y ddogfen bolisi lawn, sydd ar gael yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/trafnidiaeth-i-ysgol-neu-goleg/

Mae polisi'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sy'n gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer dysgwyr i'r ysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno.

Gweler RHAN 1, adran 1.11, i gael gwybodaeth ar sut mae pellteroedd cerdded yn cael eu cyfrif

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, nid oes dalgylchoedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymru a ffydd. Mae gan yr ysgolion di-ffydd cyfrwng Saesneg ddalgylchoedd. **Ar gyfer ysgolion di-ffydd cyfrwng Saesneg, ystyr y term 'ysgol addas agosaf' yw'r ysgol ddalgylch.**

Os yw disgybl yn mynychu ysgol nad hi yw'r ysgol addas agosaf o ganlyniad i ddewis rhiant , y rhieni/gofalwyr sy'n llwyr gyfrifol am gostau a threfniadau cludiant.

Os nad yw dysgwr yn gallu cael ei dderbyn i'w ysgol addas agosaf leol a'i fod, o ganlyniad, yn gorfod mynychu ysgol arall y tu hwn i'r 'pellter cerdded' o'r cartref, yna dim ond i'r ysgol addas agosaf nesaf y bydd cludiant yn cael ei ddarparu. Efallai na fydd hyn yn unol â'r ysgol a ffefrir gan y rhiant/gofalwr ac o dan amgylchiadau o'r fath y rhiant/gofalwr fydd yn gyfrifol am gostau a threfniadau cludiant.

Diffiniad Llywodraeth Cymru o'r 'pellter cerdded' statudol yw dwy filltir i ddysgwyr o oedran cynradd a thair milltir i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg uwchradd. Mae'r awdurdod lleol yn mesur pellterau yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael o'r cartref i'r ysgol/coleg gan ddefnyddio meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol.

Nid oes rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant ar gyfer dysgwyr o oedran meithrin na'r rhai sydd dros un ar bymtheg oed.

Mae dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn cael cludiant am ddim yn unol â pholisi cytunedig yr awdurdod lleol ar bellter cerdded a llwybrau cerdded sydd ar gael.

Mae dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf o enwad y rhieni/gofalwyr yn cael cludiant am ddim yn unol â pholisi cytunedig yr awdurdod lleol ar bellter cerdded a llwybrau cerdded sydd ar gael.

Learners whose families move to an address for which the school they attend is not the nearest suitable school will not continue to be provided with free home-to-school transport if that move takes place during primary eduation, neu ym Mlwyddyn 7, Blwyddyn 8 neu Flwyddyn 9 yn ystod addysg uwchradd. Bydd ceisiadau a wneir ar ran disgyblion sy'n symud ym Mlwyddyn 10, Blwyddyn 11, Blwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 yn cael eu hystyried yn unigol ac, o'u cymeradwyo, byddai pàs bws yn cael ei ddarparu fel arfer.

Nod yr awdurdod lleol yw darparu system gludiant ddibynadwy sy'n cludo dysgwyr yn ddiogel, yn brydlon ac mewn cyfforddusrwydd rhesymol. Ym mhob achos, defnydd effeithlon o adnoddau sy'n pennu'r dull cludiant a ddarperir, yn amodol ar unrhyw ofynion o ran anghenion arbennig. Gellir darparu cludiant trwy wasanaethau cludiant i'r ysgol ar gontract neu wasanaethau cludiant cyhoeddus presennol megis bws, bws mini, trên, tacsi a.y.b.

Mae'r Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol, Mehefin 2014 yn nodi mai'r rhieni / gofalwyr sy'n gyfrifol am gludo plentyn i'r ysgol mewn unrhyw achos lle nad oes cymhwysedd ar gyfer cludiant cartref-i-ysgol am ddim.

10.2 Asesu argaeledd llwybrau

Ystyrir bod llwybr ar gael os yw'n ddiogel (hyd y bo'n rhesymol ymarferol) i ddysgwr heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded ar hyd y llwybr ar eu pen eu hunain neu gydag oedolyn sy'n cydgerdded os yw oedran a lefel dealltwriaeth y dysgwr yn golygu bod hyn yn ofynnol. Wrth bennu diogelwch cymharol llwybr cerdded, mae'r awdurdod lleol yn cynnal asesiadau o'r risgiau y gallai plant ddod ar eu traws ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae'r holl asesiadau'n dilyn y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol, Mehefin 2014. Wrth i lwybrau gael eu hadolygu, gellir atal darpariaeth lle, er enghraifft, mae peryglon a adnabuwyd wedi cael eu lliniaru. Bydd hwn wedyn yn cael ei nodi'n llwybr cerdded a adnabuwyd ac sydd ar gael. Bydd rhieni'n cael rhybudd o un tymor o leiaf rhag blaen bod cludiant yn mynd i gael ei atal ac fel arfer bydd unrhyw benderfyniad i'w atal yn cael ei roi ar waith fel ei fod yn cyd-daro â dechrau blwyddyn academaidd.

10.3 Amgylchiadau arbennig

Mae'r Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg yn nodi'r dull o ystyried anghenion cludiant plant sy'n derbyn gofal, plant ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anableddau a phlant yr argymhellir darparu cludiant ar eu cyfer am resymau meddygol.

Gellir darparu cludiant ar gyfer dysgwyr cymwys sy'n mynychu ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos, lle mae mynychu'r ysgolion hynny'n gyson â pholisi'r awdurdod lleol ar dderbyn i ysgolion.

Gall yr awdurdod lleol ystyried arfer ei ddisgresiwn i gynorthwyo i ddarparu cludiant ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gymwys fel arall i gael cludiant am ddim, lle mae amgylchiadau arbennig yn bresennol. Mae angen i rieni/gofalwyr gyflwyno cais os ydynt o'r farn bod amgylchiadau arbennig. Ystyrir pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.

10.4 Cludiant o'r cartref i'r coleg

Bydd gan yr holl ddysgwyr sy'n 16 oed, 17 oed neu 18 oed ar 1 Medi ac sy'n mynychu eu cwrs **astudio llawn-amser cyntaf** mewn coleg addysg bellach yn y flwyddyn academaidd honno hawl i gludiant am ddim ar yr amod eu bod:

- yn byw y tu hwnt i'r maen prawf pellter o dair milltir; ac
- yn mynychu'r coleg agosaf at eu cartref sy'n darparu'r cwrs.

Y dull cludiant arferol ar gyfer myfyrwyr mewn colegau yw bws/trên.

10.5 Y Cod Ymddygiad wrth Deithio: Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Fel rhan o'r Mesur uchod, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cod Ymddygiad wrth Deithio (y Cod) i hyrwyddo teithio diogel ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, trwy egluro'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan ddysgwyr wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae'r Cod yn annog ysgolion ac awdurdodau lleol i weithio mewn modd rhagweithiol gyda dysgwyr, eu rhieni a'r gymuned i hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r Cod hefyd yn caniatáu i'r awdurdod lleol atal cludiant dros dro dan amgylchiadau lle mae dygwr wedi camymddwyn wrth deithio i'r ysgol/coleg.

Bydd yr awdurdod lleol yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y Cod os yw'n ystyried atal cludiant.

10.6 Cludiant disgresiwn

Os nad oes cymhwysedd ar gyfer cludiant cartref-i-ysgol am ddim, **gall** yr awdurdod lleol ystyried darparu cludiant dewisol. Rhaid i rieni/ofalwyr gwblhau cais. Gellir adolygu darpariaeth drafnidiaeth ddewisol a gellir ei dirwyn i ben ar unrhyw adeg.

11. Trefniadau ar gyfer darparu bwyd a diod yn ystod y diwrnod ysgol

11.1 Prydau ysgol

Mae'r prydau ysgol a ddarperir gan Wasanaeth Arlwyo'r awdurdod lleol yn ffres, yn iachus ac yn faethol gytbwys. Mae'r holl fwyd yn bodloni Rheoliadau Llywodraeth Cymru ar Fwyta'n Iach mewn Ysgolion.

Mae arlwyo ysgol yn meddu ar enw rhagorol am lanweithdra a hylendid. Rydym yn bodloni'r holl reoliadau iechyd, diogelwch a hylendid. Mae gweithdrefnau prynu yn dod o hyd i gynhwysion diogel ac yn sicrhau dulliau dosbarthu a storio priodol er mwyn cynnal a chadw'r lefelau uchaf o ran diogelwch bwyd.

Gellir creu cynllun bwydlen yn benodol ar gyfer plentyn sydd ag alergedd/ anofeddedd bwyd. Mae angen gwybodaeth feddygol/ddietegol, ac mae'r tîm rheoli sydd wedi'i hyfforddi ar faeth yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr i baratoi bwydlen addas. Mae ysgol a thîm arlwyo'r plentyn yn cael gwybod am yr alergedd/anoddefiad ac yn derbyn y fwydlen yn ddyddiol.

11.2 Talu am brydau ysgol

Gweler adran 12 am wybodaeth am brydau ysgol am ddim.

Ym mis Medi 2022, cost cinio ysgol i ddisgybl cynradd yw £2.20. Ar gyfer hyn, mae disgyblion cynradd yn derbyn prif bryd o fwyd, pwdin a diod oer.

Mae 'Arlwyo heb arian parod' yn rhoi dull amgen i rieni a gofalwr i dalu am brydau ysgol. Mae'n golygu nad oes rhaid i ddisgyblion fynd ag arian parod i'r ysgol. Yn lle hynny, mae'n bosibl talu trwy wefan yr awdurdod lleol. Mae pob ysgol gynradd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont Ar Ogwr yn cymryd rhan, heblaw am Ysgol Gynradd Pen-y-bont. Mae bob ysgol uwchradd yn cynnig rhaglen Arlwyo Di-arian ac eithrio Ysgol Gyfun Cynffig, Ysgol Gyfun Porthcawl ac Ysgol Gyfun Pencoed. Er bod gan Ysgol Maesteg raglen Arlwyo Di-arian, nid yw'n cael ei rhedeg trwy system yr awdurdod lleol.

Mae ysgolion yn cofrestru cymhwysedd disgyblion i brydau ysgol am ddim ar y system. Mae hyn yn galluogi plant i dderbyn cinio ysgol am ddim yn ddienw.

11.3 Clybiau brecwast

Mae'r cynllun hwn yn darparu brecwastau iachus am ddim bob diwrnod ysgol.

Mae clybiau brecwast yn cael eu cynnal mewn ysgolion cynradd ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.

Maent yn gweini grawnfwyd, tost, darnau o ffrwythau a dewis o laeth neu sudd ffrwythau.

Cysylltwch â'ch ysgol leol am ragor o wybodaeth.

11.4 Llaeth ysgol

Ym Mwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr, rhoddir llaeth ysgol am ddim i:

- plant o dan bump oed mewn ysgolion y wladwriaeth, cyhyd â bod y plentyn yn yr ysgol am o leiaf dwy awr y dydd
- plant hŷn mewn ysgolion y wladwriaeth hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 1, sef saith oed fel arfer

Cynigir llaeth wedi'i gymorthdalu i blant saith i unarddeg oed mewn nifer fach o ysgolion. Cysylltwch ach ysgol eich plentyn/plant i gael rhagor o wybodaeth.

Gellir cynnig llaeth geifr, defaid a llaeth gyda llai o lactos yn ôl disgresiwn ysgol, ond ni ddarperir dewisiadau nad ydynt yn gynnyrch llaeth. Mae'r cynllun yn ddewisol ar gyfer ysgolion ac mae'n bosibl y bydd rhai ohonynt yn cynnig llaeth am ddim i'w disgyblion iau, ond nid i'r rhai hŷn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

12. Prydau ysgol am ddim

Rhieni/gofalwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn derbyn unrhyw un o ystod benodedig o fudd-daliadau, yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim ar gyfer eu plentyn/plant oed ysgol.

Mae gan bobl ifanc sydd â hawl i gael cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm hawl hefyd i gael prydau ysgol am ddim.

Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reolau newydd ar gyfer hawlio prydau ysgol am ddim. Oherwydd hyn, gallai nifer gymharol fach o blant a phobl ifanc fod wedi colli eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Cyflwynwyd 'amddiffyniad wrth bontio' er mwyn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn parhau i gael prydau ysgol am ddim am gyfnod cyfyngedig o amser.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am asesu cymhwysedd disgyblion sy'n mynd i ysgol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a darparu pryd ysgol am ddim.
Mae rhagor o fanylion a ffurflen gais ar gael ar wefan yr awdurdod lleol

13. Trefniadau gwisg ysgol

13.1 Polisïau ysgol

Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i gorff llywodraethu pob ysgol ddilyn y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022, 'Polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu'.

Nid oes deddfwriaeth addysg sy'n ymwneud yn benodol â gwisgo gwisg ysgol nac agweddau eraill ar edrychiad unigolion megis lliw a steil gwallt a gwisgo gemwaith a cholur. Fodd bynnag, fel rhan o'i gyfrifoldeb am y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg, gall corff llywodraethu bennu gwisg ysgol y mae'n ofynnol i ddisgyblion ei gwisgo a rheolau eraill yn ymwneud â'u hedrychiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar bob corff llywodraethu i gael polisi gwisg ysgol ar ôl ymgynghori â rhieni, disgyblion a chymunedau lleol neu gymunedau ffydd perthnasol. Dylai'r gofynion ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion gael eu cynnwys ym mhrosbectws yr ysgol. Cysylltwch ag unrhyw ysgol am fanylion llawn.

13.2 Cymorth ariannol – Grant Mynediad Datblygu Disgyblion (GDD)

Mae grant Mynediad PDG Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo teuluoedd sydd ar incwm isel i brynu'r canlynol:

- Gwisgoedd ysgol, yn cynnwys cotiau ac esgidiau
- Dillad chwaraeon, yn cynnwys esgidiau
- Cyfarpar TG: gliniaduron a chyfrifiaduron llechi YN UNIG (dim ond mewn rhai sefyllfaoedd yn unig y dylid defnyddio grant Mynediad PDG, pan na all ysgolion roi benthyg cyfarpar i'r teulu)
- Dillad ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: sgowtiaid; geidiaid; cadetiaid; crefft ymladd; chwaraeon; y celfyddydau perfformio neu ddawns
- Cyfarpar ee bagiau ysgol a phapur ysgrifennu
- Cyfarpar arbenigol pan fydd gweithgareddau newydd y cwricwlwm yn dechrau, megis dylunio a thechnoleg
- Cyfarpar ar gyfer tripiau y tu allan i oriau ysgol, megis dysgu yn yr awyr agored ee dillad glaw.

Gall plant sydd â'u teuluoedd ar incwm isel ac sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol (yn gysylltiedig â meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer prydau ysgol

am ddim) wneud cais am y grant ar gyfer plentyn mewn blwyddyn ysgol orfodol (Derbyn i Flwyddyn 11) yn 2022-2023.

Mae pob plentyn sy'n cael eu hystyried yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn gymwys ar gyfer y grant, p'un a ydynt yn cael derbyn prydau ysgol am ddim ai peidio. Nid yw disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim dan drefniadau amddiffyniad wrth bontio yn gymwys i'r cyllid yma.

Gall teuluoedd dim ond gwneud un cais ar gyfer un plentyn, unwaith ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

Mae rhagor o fanylion a ffurflen gais ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

14. Cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau cyhoeddus

Mae pob ysgol uwchradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnig ystod o gyrsiau a chymwysterau.

Cofrestrir disgyblion ar gyfer arholiadau gan eu hysgol, yn seiliedig ar eu dewis o bynciau ac ar ôl ystyried gofynion y disgybl gan athrawon, rhieni/gofalwyr a'r disgybl. Gall swyddogion Gyrfa Cymru roi cyngor hefyd.

Mae ysgolion yn talu cost cofrestriadau arholiadau cymeradwy.

Mae'n bosibl y bydd ysgol am adennill costau cofrestriadau arholiadau oddi wrth rieni/gofalwyr mewn achosion lle nad yw disgyblion yn mynychu arholiad a lle na chafwyd rheswm boddhaol dros beidio â mynychu.

15. Presenoldeb yn yr ysgol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i gynyddu potensial pob disgybl sy'n mynd i ysgolion yn y fwrdeistref sirol.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i blant oedran ysgol sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae presenoldeb rheolaidd yn bwysig, nid yn unig am mai dyma'r gyfraith, ond oherwydd mai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod plant yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

Gall rhieni a gofalwyr gael dirwy o hyd at £2,500 neu eu carcharu am fethu sicrhau bod plentyn yn eu gofal yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Bydd adegau pan nad yw plentyn yn gallu mynd i'r ysgol, er enghraifft:

- pan fydd yn sâl;
- i fynd i apwyntiadau meddygol; neu
- ar gyfer arsylwi crefyddol.

Os oes unrhyw riant/gofalwr yn cael problemau gyda phresenoldeb eu plentyn yn yr ysgol mae'n bwysig siarad â staff yr ysgol cyn gynted â phosib.

Gall ein Gwasanaeth Cymorth Lles Addysg a Chymorth Cynnar hefyd ddarparu cymorth, cyngor, ac arweiniad ar faterion ynghylch mynychu'r ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

16. Trefniadau derbyn i ysgolion

RHAN 1 – Trefniadau derbyn cyffredinol

1.1 Y gofyniad i wneud cais am le mewn ysgol

Rhaid i rieni/gofalwyr gwblhau cais am le i'w plentyn/plant. Ni chaniateir i blentyn ddechrau mewn ysgol nes bod cais wedi dod i law ac wedi cael ei brosesu gan yr awdurdod lleol a lle mewn ysgol wedi cael ei gynnig gan yr awdurdod lleol.

Mewn perthynas â cylchoedd derbyn meithrin a chylchoedd derbyn (statudol) arferol, mae angen cais ar wahân i bob plentyn.

1.2 Pwy all wneud cais am le mewn ysgol?

Mewn cysylltiad â cheisiadau ar gyfer plant meithrin a phlant o oedran ysgol statudol, mae'n rhaid i'r cais gael ei wneud gan 'riant' y plentyn, yn unol â'r diffiniad yn Adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. Mae hyn yn nodi bod 'rhiant', mewn cysylltiad â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant biolegol ond sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu sy'n gofalu am y plentyn.

Felly, at ddibenion cyfraith addysg, mae 'rhiant' yn cynnwys;

- pob rhiant biolegol, p'un a ydynt wedi priodi ai peidio;
- unrhyw berson sydd, er nad yw'n rhiant biolegol, â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc – gall hwn fod yn rhiant mabwysiadol, llys-riant, gwarcheidwad neu berthynas arall;
- unrhyw berson sydd â gofal dros blentyn neu berson ifanc ond nad yw'n rhiant biolegol nac â chyfrifoldeb rhiant.

Mae person fel arfer â gofal dros blentyn neu berson ifanc os yw'r plentyn yn byw gyda'r person, naill ai'n amser llawn neu'n rhan amser ac sy'n gofalu am y plentyn, ni waeth beth yw'r berthynas fiolegol a chyfreithiol â'r plentyn.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r term 'rhiant/gofalwr' i adlewyrchu diffiniad cyfreithiol 'rhiant', fel y nodwyd uchod.

Bydd yr awdurdod lleol dim ond yn derbyn apêl sydd wedi'i chofrestru gan unigolyn nad yw'n rhiant/gofalwr os oes caniatâd ysgrifenedig priodol gan y rhiant/gofalwr wedi'i atodi.

Bydd angen i ymgeisydd ddatgan ei berthynas â'r plentyn a darparu'r wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn gofyn amdani, gan gynnwys dogfennau, sy'n profi'r berthynas ar yr adeg pan gyflwynir y cais.

Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl y bydd rhieni/gofalwyr plentyn yn cytuno ar yr ysgol/ion a ffefrir a phwy fydd yn cyflwyno'r cais, cyn i gais derbyn i ysgol gael ei gyflwyno. Ni fydd yr awdurdod lleol yn ymyrryd mewn anghydfod rhwng rhieni/gofalwyr dros geisiadau ysgol a bydd yn disgwyl i'r rhain gael eu datrys yn breifat. Os na all rhieni/gofalwyr gytuno ac nad oes dim gorchymyn Llys yn nodi pwy ddylai wneud y cais a pha ysgolion a ffefrir, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais gan y rhiant/gofalwr sy'n derbyn Budd-dal Plant dros y plentyn.

Gall ceisiadau mewn perthynas â derbyniadau/trosglwyddiadau ôl-16 gael eu cyflwyno gan riant/gofalwr y dysgwr.

1.3 Sut i ymgeisio am le mewn ysgol

Ar gyfer cylchoedd derbyn a derbyniadau/trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn, **rhaid** i gais derbyn i ysgol gael ei gwblhau gan y rhieni/gofalwyr.

Gall rhieni/gofalwyr gwblhau'r cais perthnasol ar-lein trwy gofrestru ar gyfer 'Fy Nghyfrif' ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pan ddewisir y botwm 'Cyflwyno' ar ddiwedd cais ar-lein, mae neges ar y sgrîn yn cadarnhau bod y cais wedi'i gyflwyno. Felly, gall rhieni/gofalwyr sy'n cwblhau cais derbyn i ysgol ar-lein fod yn dawel eu meddyliau bod y cais wedi cael ei dderbyn gan yr awdurdod lleol. Hefyd, gall y deiliad Fy Nghyfrif fewngofnodi unrhyw bryd a bydd yn gallu gweld y cais a bod ei statws 'Wedi'i Gyflwyno'. **Cyfrifoldeb rhiant/gofalwr yw sicrhau bod ceisiadau a gyflwynir gan ddefnyddio'r cyfleuster yn Fy Nghyfrif yn cael eu 'Wedi'i gyflwyno'' ac nid yn cael eu gadael fel ceisiadau sydd rhannol gyflawn**.

Os bydd rhieni/gofalwyr yn caniatáu llenwi'r ffurflen gais derbyn i ysgol drwy Fy Nghyfrif trydydd parti, ystyrir y bydd daliwr Fy Nghyfrif yn cyflwyno'r cais ar ran, a gyda chaniatâd llawn, rhieni/gofalwyr y plentyn. O dan yr amgylchiadau hyn, ystyrir y bydd y rhieni/gofalwyr yn derbyn cyfrifoldeb llawn dros ganlyniadau unrhyw gamgymeriadau neu wallau wrth lenwi a/neu gyflwyno'r cais.

Gall unrhyw rieni/gofalwyr nad oes ganddynt fynediad at eu cyfrifiadur/gliniadur neu ffôn clyfar eu hunain ddefnyddio'r cyfrifiaduron sydd ar gael yn y llyfrgelloedd yn y fwrdeistref sirol i gofrestru ar gyfer Fy Nghyfrif a chwblhau cais derbyn i ysgol. Gall rhiant/gofalwr sy'n dal i fethu â chreu Fy Nghyfrif a chael mynediad at y cais derbyn i ysgol ar-lein perthnasol gysylltu â'r ysgol neu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar

Ogwr trwy ffonio 01656 643643, i ofyn am gael cyflwyno cais derbyn i ysgol ar ffurf copi caled. Ar ôl ei gwblhau, dylid postio'r cais i:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Addysg a Chymorth i Deuluoedd – Gwasanaethau Disgyblion
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Dylai rhieni / gofalwyr nodi na ellir dal yr awdurdod lleol yn gyfrifol am beidio â derbyn cais nas cyflwynwyd trwy'r cyfleuster ar-lein.

Os dylai trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer cyflwyno ceisiadau derbyn newid cyn neu yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023, cyhoeddir manylion ar wefan yr awdurdod lleol.

1.4 Dewis ysgol

Ysgolion agosaf neu ysgolion ardaloedd/dalgylch

Nid oes dalgylchoedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymru a ffydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ond mae gan bob cyfeiriad yn y fwrdeistref ysgol Gymraeg agosaf ac ysgol ffydd agosaf.

Ar gyfer pob ysgol arall, mae ardal ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu – ei 'dalgylch'.

Ar gyfer ysgolion perthnasol, cyhoeddir mapiau dalgylch ar wefan yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i egwyddor darparu ysgolion lleol ar gyfer plant lleol a bydd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gallu sicrhau lle i'w plentyn/plant yn yr ysgol addas agosaf/ysgol ddalgylch, lle mae rhieni/gofalwyr wedi mynegi mai honno yw'r ysgol sydd orau ganddynt.

Er bod y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn dewis anfon eu plentyn/plant yn yr ysgol addas agaosaf/ysgolddalgylch, mae ganddynt yr hawl i fynegi dewis i'w plentyn/plant fynychu unrhyw ysgol.

Nid yw disgyblion yn cael eu derbyn yn awtomatig i'w hysgol addas agosaf/hysgol ddalgylch ac felly mae angen o hyd i rieni/ofalwyr ymgeisio am y lle a ffefrir ganddynt yn yr ysgol honno.

Dewis rhieni

Mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion cynradd (ac eithrio dosbarthiadau meithrin), ysgolion iau ac ysgolion uwchradd (gan gynnwys chweched dosbarth), mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu'n unol â dymuniadau eu rhieni/gofalwyr, cyn belled â bod hynny'n gyson â darparu addysg effeithlon ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol (A.9 o Ddeddf Addysg 1996).

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r un egwyddor o ddewis rhieni ar gyfer ceisiadau am addysg feithrin anstatudol mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol.

Nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol i gydymffurfio â dewis rhieni yn berthnasol pan fydd:

1. Derbyn yn anghydnaws â'r ddyletswydd statudol i gadw at reoliadau maint dosbarthiadau babanod.

2. Derbyn y plentyn yn niweidiol i ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau.

3. Trefniadau derbyn i chweched dosbarth ysgol wedi eu seilio'n llwyr ar allu neu ddawn a byddai cydymffurfio â'r dewis yn anghydnaws â'r trefniadau derbyn hynny.

4. Y plentyn wedi ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gydymffurfio â dewis rhieni o le mewn ysgol am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl diwrnod ysgol cyntaf yr ail waharddiad.

Nid yw'r eithriad hwn i'r gofyniad i gydymffurfio â dewis rhieni yn berthnasol i:

- ddisgyblion a oedd yn iau na'r oedran addysg orfodol pan gawsant eu gwahardd;
- disgyblion a gafodd eu derbyn yn ôl yn dilyn gwaharddiad parhaol neu ddisgyblion a fyddai wedi eu derbyn yn ôl yn dilyn gwaharddiad parhaol os byddai wedi bod yn ymarferol i wneud hynny;
- disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig;
- disgyblion sy'n derbyn gofal (mae'n rhaid i'r cais ar gyfer derbyn gael ei wneud gan y rhiant corfforaethol), neu sydd wedi derbyn gofal (mae'n rhaid

i’r cais ar gyfer derbyn gael ei gyflwyno gyda thystiolaeth o’r statws o dderbyn gofal yn y gorffennol).

Ar gyfer cylchoedd derbyn, mae’r ffurflen gais yn caniatáu i rieni/ofalwyr restru mwy nag un ysgol yn nhrefn blaenoriaeth. Bydd yr awdurdod lleol yn cynnig lle yn yr ysgol uchaf ar y rhestr sydd ar gael.

Mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gydymffurfio â’r dewisiadau ar gyfer derbyniadau a fynegir gan rieni/gofalwyr o flaen y rhai nad ydynt wedi mynegi dewis.

Nid yw cyfyngu ffafriaethi un ysgol yn gwella y rhagolygon o gael lle i’r plentyn yn yr ysgol honno.

Os yw rhiant / gofalwr yn mynegi dewis am un ysgol yn unig, ac nad yw'r cais am yr ysgol honno'n llwyddiannus, ni all yr awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau eraill bryd hynny. Os yw'r rhiant / gofalwr yn ddiweddarach yn mynegi dewis am ysgol arall, mae'n bosibl bod yr holl leoedd yn yr ysgol amgen honno wedi'u dyrannu eisoes.

Rhaid i rieni/gofalwyr sicrhau eu bod yn dychwelyd y ffurflen gais yn mynegi eu dewisiadau ysgolerbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Bydd ceisiadau na dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu trin fel ceisiadau hwyr ac efallai na fydd lle ar gael yn yr ysgol / ysgolion a ffefrir ar adeg prosesu'r cais.

1.5 Trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill

Mae’r awdurdod lleol wedi gwneud y trefniadau canlynol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, lle mae lleoedd gwag ar gael i dderbyn disgyblion:

1. Gall disgyblion o Ysgol Gynradd Abercerdin fynychu Ysgol Gyfun Tonyrefail gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am gostau cludiant.
2. Gall disgyblion Ysgol Gynradd y Dolau, Ysgol Gynradd Brynnau ac Ysgol Gynradd Llanharan fynychu Ysgol Gyfun Pencoed gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am gostau cludiant.

1.6 Cyfeiriad y plentyn / man preswylio arferol y plentyn

Bydd disgwyl i rieni/gofalwyr gofnodi’r cyfeiriad presennol y mae eu plentyn yn byw ynddo fel arfer ar gais derbyn i ysgol.

Cylchoedd derbyn

Wrth ystyried a yw plentyn yn byw yn nalgylch ysgol, man preswylio arferol y plentyn y mae'r awdurdod yn ei ystyried fel y cyfeiriad cartref a'r un sy'n bodloni'r meini prawf derbyn.

Lle nad yw rhieni/gofalwyr y plentyn yn byw gyda'i gilydd ond bod ganddynt gyfrifoldeb ar y cyd am y plentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r naill riant/gofalwr a'r llall am ran o'r cyfnodau pan fo'r plentyn yn cael addysg, byddir yn ystyried bod y plentyn yn byw fel arfer yn y lleoedd y mae'r naill a'r llall o'r rhieni/gofalwyr yn byw fel arfer. Yn unol â hynny, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cyfeiriad y naill riant/ofalwr neu'r llall fel man preswylio arferol y plentyn.

Bydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i geisiadau lle mae unrhyw amheuaeth ynghylch man preswylio cyffredin y plentyn. Lle mae rhiant/gofalwr yn darparu gwybodaeth sy'n dwyllodrus neu'n fwriadol gamarweiniol mewn perthynas â man preswylio plentyn, er mwyn cael mantais o ran lle mewn ysgol benodol na fyddai gan y plentyn hawl iddo fel arall, ceidw'r awdurdod lleol yr hawl i dynnu'r cynnig hwnnw o le yn ôl, hyd yn oed os yw'r plentyn eisoes wedi cychwyn yn yr ysgol. Lle tynnir lle yn ôl, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd yn seiliedig ar y man preswylio cywir a bydd hawl apelio'n cael ei chynnig os gwrthodir lle yn yr ysgol(ion) a ffefrir.

Os yw man preswylio arferol plentyn yn newid ar ôl cyflwyno cais derbyn i ysgol:

1. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol ar unwaith (drwy e-bost neu lythyr).
2. Os caiff yr awdurdod wybod am y newid cyn dyddiad cau y cylch derbyn, ystyrir y newid wrth ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio a dyrannu lleoedd.
3. Os caiff yr awdurdod wybod am y newid ar ôl dyddiad cau'r cylch derbyn, defnyddir y man preswylio arferol a nodir ar y cais wrth ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio a dyrannu lleoedd. Bydd yr ymgeisydd yn cael llenwi a chyflwyno cais hwyr os nad yw'n ffafrio'r ysgol y dyrennir lle ynddi mwyach, a byddai hyn yn amodol ar y darpariaethau sy'n berthnasol i geisiadau hwyr (gweler Rhan 1, adran 1.16).
4. Os nad yw'r ymgeisydd yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am newid man preswylio arferol cyn y dyddiad y byddai'r plentyn yn dechrau ysgol, yna bydd yr awdurdod lleol yn cymryd y camau a nodir isod o dan 'rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol'.

Derbyniadau/trosglwyddiadau ar ganol blwyddyn

Nid yw'r cwestiwn pa un a yw man preswylio arferol y plentyn o fewn dalgylch yr ysgol a ffefrir yn berthnasol o gwbl wrth ystyried cais i dderbyn/trosglwyddo ar ganol blwyddyn.

1.7 Ceisiadau a wneir ar sail newid i'r man preswylio yn y dyfodol

Cylchoedd derbyn

Bydd disgybl i rieni/gofalwyr gofnodi'r cyfeiriad presennol y mae eu plentyn yn preswylio ynddo fel arfer ar gais derbyn i ysgol.

O dan amgylchiadau pan fo'r ymgeisydd yn y broses o symud tŷ ar yr adeg y cyflwynir y cais a'i fod wedi mynegi dewis am ysgol sydd yn nalgylch y cyfeiriad yn y dyfodol. Mae'n **rhaid** darparu'r dystiolaeth ganlynol i'r awdurdod lleol:

- tystiolaeth ysgrifenedig gan gyfreithiwr bod y tŷ wedi cael ei werthu, bod contractau wedi cael eu cyfnewid a bod dyddiad symud wedi cael ei gytuno fel y bydd y plentyn yn preswylio yn y cyfeiriad newydd erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef; neu

- cytundeb tenantiaeth ysgrifenedig sy'n dangos y bydd y plentyn yn byw yn y cyfeiriad newydd erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Rhaid i'r awdurdod lleol gael yr holl dystiolaeth ofynnol cyn dyrannu a chynnig lleoedd. Os na cheir y dystiolaeth cyn dyrannu a chynnig lleoedd, bydd y cais yn cael ei drin fel cais o'r tu allan i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol(ion) a ffefrir.

Os nad yw'r dystiolaeth yn cadarnhau y bydd y plentyn yn preswylio yn y cyfeiriad newydd erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef, bydd y cais yn cael ei drin fel cais o'r tu allan i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol(ion) a ffefrir.

Ceisiadau derbyn/trosglwyddo ar ganol blwyddyn

Nid yw'n deg bod yr awdurdod lleol yn cadw lleoedd ar agor i blant am gyfnodau rhy hir. Yn unol â hynny, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn ceisiadau 'rhag blaen' ar gyfer derbyn/trosglwyddo ar ganol blwyddyn, h.y. ar gyfer dyddiad derbyn yn y dyfodol, lle mae'r dyddiad derbyn hwnnw y gofynnir amdano yn y cyfnod hyd at ddiwedd yr hanner tymor canlynol, a bod yr awdurdod lleol yn fodlon ar y rhesymau dros y cais rhag blaen.

1.8 Brodyr a chwiorydd

Dim ond i'r meini prawf goralw ar gyfer cylchoedd derbyn y mae'r cwestiwn pa un a fydd sibling yn mynychu'r ysgol(ion) a ffefrir yn berthnasol. Nid yw'n berthnasol o gwbl i geisiadau derbyn/trosglwyddo ar ganol blwyddyn.

Y diffiniad o sibling yw hanner brawd/chwaer neu frawd llawn/chwaer lawn; brawd neu chwaer m/fabwysiedig; plentyn sy'n byw ar yr un aelwyd.

Bydd cais yn cael ei ystyried o dan unrhyw feini prawf gordanysgrifio brodyr a chwiorydd perthnasol ar gyfer rowndiau derbyn os yw'r amodau canlynol yn cael eu bodloni:

1. cofnodir manylion llawn y brodyr a chwiorydd ar y cais; a
2. byddai'r brawd neu chwaer a'r plentyn sy'n destun y cais yn mynychu'r un ysgol ar yr un pryd a bod y brawd/chwaer o oedran addysg statudol (h.y. ar gyfer ceisiadau ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd, mae'n rhaid i'r brawd/chwaer fod yn y dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6; ar gyfer ceisiadau ysgolion iau, mae'n rhaid i'r brawd/chwaer fod ym Mlwyddyn 4 i Flwyddyn 6; ar gyfer ceisiadau ysgolion uwchradd, mae'n rhaid i'r brawd/chwaer fod ym Mlwyddyn 7 i Flwyddyn 11).

1.9 Plant aml-enedigaeth

Diffiniad aml-enedigaeth yw genedigaeth mwy nag un baban o un beichiogrwydd (e.e. genedigaeth gefeilliaid, tripledi ac ati).

Wrth ddyrannu lleoedd os cynigir y lle olaf i blentyn a aned fel rhan o enedigaeth luosog , bydd yr awdurdod lleol hefyd yn derbyn y sibling arall/siblingiaid eraill.

1.10 Rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol

Bydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i unrhyw geisiadau lle mae amheuaeth ynghylch unrhyw wybodaeth a allai arwain at fantais lleoliad ysgol penodol na fyddai gan y plentyn hawl iddo fel arall. Er enghraifft, amheuaeth ynghylch man preswylio cyffredin y plentyn, neu amheuaeth ynghylch y wybodaeth mewn perthynas â brawd neu chwaer yn yr ysgol.

Pan fo rhiant/gofalwr yn rhoi gwybodaeth anwir neu fwriadol gamarweiniol er mwyn manteisio ar le mewn ysgol benodol:

1. Os na chynigiwyd lle eto, bydd unrhyw gynnig yn seiliedig ar y wybodaeth gywir fel y nodwyd gan ymchwiliadau'r awdurdod lleol.

2. Os cynigiwyd lle eisoes, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i dynnu'r lle a gynigir yn ôl.

Pan gaiff lle ei dynnu'n ôl, ystyrir y cais o'r newydd ar y pryd , yn seiliedig ar y wybodaeth gywir. Mae chynigir hawl i apelio pe gwrthodir lle yn yr ysgol/ion a ddewisir.

1.11 Pellter i'r ysgol

Y mesur pellter hyn o fan preswylio arferol y plentyn i glwyd agored agosaf yr ysgol y caiff disgyblion ei defnyddio i gael mynediad i dir yr ysgol.

Yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu a yw unrhyw fynedfa mewn unrhyw ysgol yn giât ysgol hygyrch neu beidio.

O ran cartrefi mewn blociau o fflatiau, mesurir y pellter o fynediad blaen pob fflat.

Cyfrifir y pellter i bedwar lle degol.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio meddalwedd sy'n ystyried y llwybrau cerdded a aseswyd sydd ar gael i'r ysgol/ion i fesur pob pellter ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ni fydd yr awdurdod lleol yn ystyried unrhyw lwybrau cerdded eraill y ysgol y gall rhieni / gofalwyr ddewis eu defnyddio.

O ran ceisiadau pan fo man preswylio arferol y plentyn y tu allan i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mesurir y pellter gan ddefnyddio gwasanaethau ar-lein sydd ar gael yn gyhoeddus.

1.12 Gwybodaeth neu amgylchiadau nad yw'r awdurdod lleol yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau derbyn

Nid yw'r canlynol yn rhestr drwyadl, ond mae'n rhoi'r brif wybodaeth ac amgylchiadau nad ydynt yn cael effaith ar benderfyniadau derbyn;

- Unrhyw ysgol y mae'r plentyn wedi ei mynychu yn flaenorol.
- Unrhyw ysgol y gallai plentyn ei mynychu yn y dyfodol.
- Rhiant/gofalwr yn dweud wrth unrhyw ysgol bod bwriad i wneud cais am le yn yr ysgol.
- Gwahoddiad i, neu bresenoldeb plentyn, mewn diwrnod 'blasu'/pontio mewn unrhyw ysgol.
- Caniatâd gan unrhyw ysgol i rieni/ofalwyr a/neu'r plentyn ymweld â'r ysgol.

- Unrhyw arwydd a roddir yn glir, neu a dybir gan riant/ofalwr y'i rhoddwyd, gan ysgol bod lleoedd ar gael yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp blwyddyn, ac eithrio'r chweched dosbarth.

  Mae hyn yn cynnwys unrhyw achos lle mae rhiant / gofalwr o'r farn eu bod wedi 'cofrestru' eu plentyn am le yn yr ysgol. Ar gyfer ysgolion lle mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn (hy pob ysgol ac eithrio'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), nid oes cyn-gofrestru ar gyfer unrhyw leoedd ysgol a rhaid i rieni / ofalwyr wneud cais am le mewn ysgol yn y modd a yn unol â'r amserlenni y manylir arnynt ym Mholisi Derbyniadau Ysgol 2022-2023 ac yn y prosbectws hwn.

1.13 Ceisiadau i dderbyn plentyn y tu allan i'w grŵp oedran cronolegol

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd rhieni/gofalwyr yn ceisio lle mewn ysgol y tu allan i'r grŵp cronolegol ar gyfer plant sy'n fwy galluog neu dalentog, neu blant sydd wedi profi problemau neu wedi colli rhan o flwyddyn oherwydd afiechyd.

Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried pob cais yn ofalus ac yn gwneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried beth sydd fwyaf buddiol i'r plentyn ac, ym mhob achos, bydd yn ceisio gwybodaeth gan y rhieni, yr ysgol a seicolegydd addysg a unrhyw bobl berthnasol eraill i lywio ei benderfyniad.

Lle mae'r awdurdod lleol o'r farn bod cais y tu allan i'r grŵp blwyddyn yn briodol ond bod y cais yn cael ei wrthod am nad oes lleoedd ar gael yn yr ysgol, bydd y rhiant/gofalwr yn cael cynnig hawl i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio os cynigiwyd lle, ond nid yn y grŵp blwyddyn a ddymunir (h.y. os yw'r lle a gynigiwyd yn y grŵp blwyddyn cronolegol cywir ar gyfer oedran y plentyn).

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod cais am le mewn y tu allan i'r grŵp blwyddyn yn briodol ac mae'r cais am le Meithrin Ran-amser yn y mis Ionawr neu'r Ebrill canlynol, neu Feithrin Amser Llawn, Derbyn, ysgol iau Blwyddyn 3 neu ysgol uwchradd Blwyddyn 7 o'r mis Medi canlynol, bydd y cais yn ddarostyngedig i'r amodau a'r meini prawf sy'n berthnasol i'r rowndiau derbyn hynny, ac yn cael eu hystyried yn unol â hynny.

1.14 Capasiti ysgolion

Capasiti ysgol yw nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion sydd ynddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi methodoleg cyfrifo capasiti ar gyfer pob ysgol. Mae hon yn darparu dull cadarn a chyson o asesu capasiti'r holl ysgolion ac mae'n seiliedig ar adeiladau presennol ysgol a defnydd. Fodd bynnag, nid yw'r dull yn berthnasol i ysgolion meithrin nac arbennig nac unedau cyfeirio disgyblion.

Ar gyfer grwpiau blwyddyn statudol (Derbyn i Flwyddyn 11), mae'r cyfrifiad o gapasiti'n goleuo cyfrifiad yr awdurdod lleol o nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) ar gyfer ysgol. Y NDC yw nifer y disgyblion ar gyfer pob grŵp blwyddyn oedran statudol y gall yr ysgol ei letya. Er enghraifft, os yw'r NDC ar gyfer ysgol gynradd yn 30, mae hyn yn golygu y gall yr ysgol letya 30 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn o'r Dderbyn i Flwyddyn 6.

Am flwyddyn arferol o fynediad (Derbyn a Blwyddyn 7), mae'n rhaid i awdurdod lleol dderbyn disgyblion hyd at y NDC (ac eithrio disgyblion sydd wedi eu gwahardd ddwywaith).

Am yr holl flynyddoedd eraill, nid yw'n ofyniad statudol bod yr awdurdod lleol yn derbyn disgyblion hyd at y NDC, er y bydd yr awdurdod lleol fel arfer yn gwneud hynny. Fodd bynnag, ar gyfer dosbarthiadau babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2), deddfwriaeth ar gyfer maint dosbarthiadau babanod yn berthnasol (gweler adran 1.15).

Gan fod y NDC yn adlewyrchu gallu'r ysgol i dderbyn disgyblion, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae'r awdurdod lleol yn fwy na'r nifer hwn.

1.15 Terfyn ar gyfer maint dosbarthiadau babanod

Er mwyn gwella safonau addysgol mewn ysgolion, mae Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013 yn cyfyngu nifer y plant mewn dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 i 30 pan fo un athro cymwysedig/athrawes gymwysedig yn bresennol.

Gall yr awdurdod lleol wrthod derbyn i ddosbarthiadau yn y grwpiau blwyddyn hyn os byddai derbyn disgybl yn golygu mynd y tu hwnt i'r terfyn ar gyfer maint dosbarthiadau babanod, gan beryglu maint dosbarth babanod. Mae rhagfarn maint dosbarth babanod yn codi pan effeithir yn andwyol ar addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau yn yr ysgol oherwydd bod yn rhaid i'r ysgol gymryd mesurau (megis cyflogi athro cymwys arall) er mwyn sicrhau cydymffurfiad â therfyn maint dosbarth babanod.

Mae'r terfyn maint dosbarth babanod o 30 yn berthnasol i drefniadaeth y dosbarthiadau ac nid i nifer y plant sydd i'w derbyn hy y NDC. Mewn perthynas â'r flwyddyn Dderbyn, ni all rhagfarn maint dosbarth babanod godi oni bai bod y NDC eisoes wedi'i gyrraedd. Fodd bynnag, nid dyma'r sefyllfa ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2. Gall yr awdurdod lleol wrthod mynediad i Flwyddyn 1 neu Flwyddyn 2 hyd yn oed os

na chyrhaeddwyd y rhif derbyn, pe byddai cynnig lle yn arwain at ragfarn maint dosbarth.

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu rhai eithriadau i'r terfyn ar gyfer maint dosbarthiadau babanod, e.e. derbyn plant sy'n derbyn gofal neu a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol.

1.16 Ceisiadau hwyr (cylchoedd derbyn)

Dylid cyflwyno pob cais mewn pryd i'r awdurdod lleol ei dderbyn erbyn y terfyn amser cyhoeddedig perthnasol.

Mae cais a dderbynnir gan yr awdurdod lleol **ar ôl yr amser cau a'r dyddiad cyhoeddi cyhoeddedig** ar gyfer y rownd dderbyn yn gais hwyr.

Mae gan bob rownd dderbyn 'ddyddiad cynnig' cyhoeddedig ar gyfer lleoedd. Dyddiad y cynnig yw'r dyddiad y dylai rhieni / gofalwyr dderbyn hysbysiad o ganlyniad ceisiadau. Felly, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gwblhau ei ddyraniad gweithredol o leoedd cyn dyddiad y cynnig. Ni ellir pennu ymlaen llaw y dyddiad y bydd yr awdurdod lleol yn cwblhau ei ddyraniad gweithredol o leoedd ar gyfer unrhyw rownd dderbyn, ond bydd o leiaf fis cyn dyddiad y cynnig.

Dim ond os derbynnir y cais cyn i'r awdurdod lleol ddechrau dyrannu lleoedd yn weithredol y bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cais hwyr, **a** bod yr awdurdod lleol yn fodlon ynghylch rheswm y rhieni / gofalwyr dros gyflwyno'r cais yn hwyr. Gall yr awdurdod lleol ofyn am wybodaeth ychwanegol, neu dystiolaeth, gan riant / gofalwr, i lywio'r penderfyniad a ddylid derbyn y cais i'w gynnwys wrth ddyrannu lleoedd ar gyfer dyddiad y cynnig.

Ni dderbynnir pob cais hwyr arall i'w gynnwys wrth ddyrannu lleoedd a fydd yn cael ei hysbysu i ymgeiswyr ar y dyddiadau cynnig cyhoeddedig perthnasol. Bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu prosesu gan yr awdurdod lleol **ar ôl ceisiadau a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau ac yn nhrefn y dyddiad a dderbyniwyd**. Ni fydd meini prawf gor-danysgrifio yn berthnasol; os oes lle ar gael yn yr ysgol a ffefrir ar yr adeg y caiff y cais ei brosesu, bydd yn cael ei gynnig. Felly, efallai y bydd ymgeiswyr hwyr yn gweld bod eu hoff ysgol eisoes yn llawn, hyd yn oed os mai'r ysgol addas agosaf / ysgol ddalgylch.

Mae'r holl geisiadau ar gyfer cylchoedd derbyn yn dod i ben ar 31 Awst 2022. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i riant/gofalwr gwblhau cais derbyn/trosglwyddo ar ganol blwyddyn.

Nid yw'r awdurdod lleol yn derbyn ceisiadau derbyn / trosglwyddo yn ystod y flwyddyn a wneir fwy nag un hanner tymor cyn y dyddiad cychwyn. O ganlyniad, bydd yr awdurdod lleol yn dechrau prosesu'r ceisiadau hynny ar gyfer dosbarth Meithrin Ran

Amser ym mis Ebrill 2023 a dderbyniwyd ar ôl 31 Awst 2022, ar ddechrau tymor y gwanwyn 2023.

Ni fydd ceisiadau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal neu blant sydd â datganiad AAA neu CDU sy'n enwi ysgol benodol yn cael eu trin fel ceisiadau hwyr pryd bynnag y daw'r cais i law.

1.17 Hysbysu ynghylch y penderfyniad

Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch canlyniad unrhyw gais derbyn i ysgol. Ni ddylai rhiant/gofalwr fod â disgwyliad o hysbysiad llafar.

Bydd rhieni/gofalwyr sy'n cyflwyno cais erbyn dyddiad cau cyhoeddedig cylch derbyn, neu rieni/ofalwyr y mae eu cais hwyr wedi ei dderbyn gan yr awdurdod lleol i'w gynnwys yn y broses o ddyrannu lleoedd, yn cael gwybod ar ddyddiad y cynnig am ganlyniad eu cais derbyn i ysgol neu gais trosglwyddo/derbyn i ysgol yn ystod y flwyddyn ar ddyddiad y cynnig.

Mewn perthynas â cheisiadau a wneir ar gyfer cylchoedd derbyn, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 'dyddiadau cynnig' cenedlaethol pan fydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ynghylch y canlyniad.

Pe gwrthodir cais, bydd yr hysbysiad yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a bydd yn rhoi gwybod i rieni/ofalwyr am y broses apelio. Gan fod addysg feithrin yn anstatudol, **nid oes gan rieni/ofalwyr unrhyw hawl i apelio yn erbyn ceisiadau aflwyddiannus ar gyfer ceisiadau i ddosbarthiadau meithrin.**

1.18 Rhestrau aros

Mae'r awdurdod lleol yn cadw rhestrau aros ar gyfer ysgolion â goralw. Bydd plentyn yn cael ei ychwanegu'n awtomatig at y rhestr aros oni bai bod rhiant/gofalwr wedi hysbysu'r awdurdod lleol yn benodol nad oes angen gwneud hyn.

Ar gyfer y cylchoedd derbyn, bydd plant yn aros ar y rhestr aros ar gyfer unrhyw ysgol y gwrthodwyd lle iddynt ynddi, tan 30 Medi 2022. Bydd plant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr(au) aros yn awtomatig ar ôl y dyddiad hwn.

Ar gyfer yr holl geisiadau derbyn/trosglwyddo ar ganol blwyddyn, bydd plant yn aros ar y gofrestr ar gyfer yr ysgol y gwrthodwyd lle iddynt ynddi am gyfnod o dri mis o'r dyddiad y llythyr gwrthod. Bydd plant yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn awtomatig wedi i'r cyfnod hwn ddod i ben. Ni fydd cyflwyno cais newydd yn adnewyddu lle plentyn ar restr aros. Os cyflwynir cais newydd a bod y cais hwnnw'n cael ei wrthod, bydd y plentyn yn cael ei gofnodi fel plentyn newydd ar y gofrestr o'r dyddiad gwrthod.

Nid yw apelio'n estyn y cyfnod y bydd plentyn ar y rhestr aros.

Os daw lle ar gael mewn ysgol a bod mwy nag un plentyn ar y rhestr aros ar gyfer y grŵp blwyddyn, bydd y lle'n cael ei ddyrannu ar sail y meini prawf goralw perthnasol a gyhoeddwyd ac **nid** faint o amser y mae plentyn wedi bod ar y rhestr aros.

1.19 Cydraddoldebau

Mae trefniadau derbyn yr awdurdod lleol yn ceisio cydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, mewn perthynas â chyfle cyfartal a hawliau dynol (Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993).

1.20 Diogelu data

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod preifatrwydd yn bwysig ac mae'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Gellir gweld canllawiau ac egwyddorion diogelu data'r awdurdod lleol yn eu cyfanrwydd ar y wefan www.bridgend.gov.uk/cy/

Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan rieni/gofalwyr/dysgwyr ar gais derbyn i ysgol, cais derbyn/trosglwyddo i ysgol ar ganol blwyddyn neu wrth apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch derbyn i ysgol yn cael ei dal yn electronig a'i defnyddio gan yr awdurdod lleol at ddiben prosesu'r cais derbyn neu'r cais i apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch derbyn.

Bydd yr awdurdod lleol yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir ar gais derbyn i ysgol neu gais derbyn/trosglwyddo i ysgol ar ganol blwyddyn gyda'r ysgolion perthnasol yn unol â'r Datganiad Prosesu Teg – Addysg a Chymorth i Deuluoedd, sydd ar gael yma https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/

Bydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i unrhyw geisiadau derbyn ysgol lle mae amheuaeth ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd. Er enghraifft, gellir gwirio manylion cyfeiriadau yn erbyn cofnodion treth y cyngor. Bydd hyn er mwyn cynorthwyo i atal a chanfod twyll cyfeiriadau at ddibenion ennill mantais annheg yn y system ymgeisio ysgolion ac o dan Atodlen 2, rhan 1, 2 (1) o Ddeddf Diogelu Data 2018.

RHAN 2 – Cylchoedd derbyn meithrin

2.1 Cyffredinol

Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer dosbarthiadau meithrin a gynhelir gan yr awdurdod lleol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dylai rhieni/gofalwyr sy'n dymuno ymgeisio am le meithrin mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir gysylltu â'r ysgol honno'n uniongyrchol i gael ffurflen gais ar gyfer derbyn.

Mae lleoedd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn rhai rhan-amser ar gyfer plant tair blwydd oed ac amser llawn ar gyfer plant pedair oed.

Er bod addysg feithrin yn anstatudol, mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i bob plentyn sy'n cael cynnig lle rhan-amser i fynychu am bum hanner diwrnod yr wythnos ysgol a phob plentyn sy'n derbyn lle amser llawn i fynychu am bum diwrnod llawn yr wythnos ysgol.

Er y gall ysgolion gynnig rhywfaint o hyblygrwydd i rieni / gofalwyr o ran y dyddiad cychwyn ar gyfer plant Meithrin Ran Amser ac Amser Llawn, mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i bob plentyn fod wedi cymryd y lleoedd a gynigir erbyn diwedd yr hanner cyntaf erbyn diwedd yr hanner tymor cyntaf. Mae pwysau ar feithrinfeydd mewn rhai ysgolion ac ardaloedd daearyddol ac nid yw'n deg nac yn deg caniatáu i le a gynigir gael ei lenwi am gyfnod gormodol o dan yr amgylchiadau hyn.

Mae'n **rhaid** i gais derbyn i ysgol (meithrin) gael ei gwblhau gan rieni/ofalwyr plant cymwys i fynychu dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Ni fydd plentyn yn cael caniatâd i fynychu dosbarth meithrin mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol oni bai fod cais perthnasol wedi ei gyflwyno **a** bod yr awdurdod lleol wedi cynnig lle yn yr ysgol honno yn swyddogol.

Dylai rhieni/gofalwyr nodi:

- Pan fo disgyblion wedi cael eu derbyn i ddosbarth Meithrin Ran Amser mewn ysgol fabanod neu ysgol gynradd, **ni fydd hawl awtomatig ganddynt i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol wrth wneud cais am le Meithrin Amser Llawn**. Bydd yn ofynnol i rieni/gofalwyr yr holl blant sy'n mynychu dosbarth Meithrin Ran Amser, pa un a ydynt yn preswylio o fewn ynteu'r tu allan i'r dalgylch diffiniedig, gwblhau cais derbyn i ysgol am le Meithrin Amser Lawn mewn ysgol gynradd neu fabanod, ar yr adeg briodol, gan ddynodi'r ysgol a ffefrir ganddynt.

- Pan fo disgyblion wedi cael eu derbyn i ddosbarth Meithrin Amser Llawn mewn ysgol fabanod neu ysgol gynradd, **ni fydd hawl awtomatig ganddynt i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol wrth wneud cais am le Derbyn**. Bydd yn ofynnol

i rieni/gofalwyr yr holl blant sy'n mynychu dosbarth Meithrin Amser Llawn, pa un a ydynt yn preswylio o fewn ynteu'r tu allan i'r dalgylch diffiniedig, gwblhau cais derbyn i ysgol am le Derbyn mewn ysgol gynradd neu fabanod, ar yr adeg briodol, gan ddynodi'r ysgol a ffefrir ganddynt.

- Gan fod addysg feithrin yn anstatudol, **nid oes hawl i apelio** pan wrthodir cais am le Meithrin Ran Amser neu Amser Llawn.

2.2 Y cylch derbyn Meithrin Amser Llawn

Cymhwystra a dyddiadau cylchoedd derbyn

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023, mae'r tabl isod yn dangos y dyddiadau mewn perthynas â chymhwystra a'r cylch derbyn:

Cohort	Ceisiadau cymwys	Dyddiadau cylchoedd derbyn
Meithrin Amser Llawn yn dechrau ym mis Medi 2022	Plant a aned rhwng 01 Medi 2018 a 31 Awst 2019. Bydd y plant hyn yn troi'n bedair oed rhwng 01 Medi 2022 a 31 Awst 2023.	Ceisiadau'n agor – 10am Dydd Lun, 10 Ionawr 2022 Ceisiadau'n cau – 4pm Dydd Gwener, 25 Mawrth 2022 Dyddiad cau – Dydd Llun, 16 Mai 2022

Sut mae nifer y lleoedd Meithrin Amser Llawn sydd ar gael yn cael ei gyfrif

Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried maint yr ystafelloedd meithrin yn yr ysgol ond fel rheol dim ond hyd at yr hyn sy'n cyfateb i nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol (NDC) y bydd yn ei dderbyn. Er enghraifft, os yw'r llety meithrin mewn ysgol o faint sy'n addas ar gyfer 50 o blant Meithrin Amser Llawn, ond bod y NDC ar gyfer yr ysgol yn 40, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn uchafswm o 40 o blant Meithrin Amser Llawn. Defnyddir y capasiti sy'n weddill i ddarparu ar gyfer plant Meithrin Ran Amser.

Sut mae lleoedd dosbarth Meithrin Amser Llawn yn cael eu dyrannu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, di-ffydd

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Os yw nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso'r **meini prawf goralw** canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd os cynigir y lle olaf i blentyn a aned fel rhan o enedigaeth luosog (e.e. gefell neu dripled), bydd yr awdurdod lleol hefyd yn derbyn y sibling arall/siblingiaid eraill.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol a phlant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant y mae eu man preswylio arferol o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Lle mae goralw mewn ysgol dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn blaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant nad ydynt yn preswylio fel arfer yn nalgylch diffiniedig yr ysgol ar hyn o bryd y mae eu rhieni/gofalwyr wedi argyhoeddi'r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn preswylio fel arfer yn y dalgylch diffiniedig erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

   Lle mae goralw mewn ysgol dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn blaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sy'n weddill yn y drefn blaenoriaeth a nodir isod:

    a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

    b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

Sut mae lleoedd dosbarth Meithrin Amser Llawn yn cael eu dyrannu ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymru a ffydd

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Os yw nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso'r **meini prawf goralw** canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a phlant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

4. Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

2.3 Y cylch derbyn Meithrin Ran Amser

Cymhwystra a dyddiadau cylchoedd derbyn

Mae plentyn yn gymwys ar gyfer lle dosbarth Meithrin Ran Amser o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd, ym mis Ionawr neu Ebrill.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023, mae'r tabl isod yn dangos y dyddiadau mewn perthynas â chymhwystra a'r cylch derbyn:

Cohort	Ceisiadau cymwys	Dyddiadau cylchoedd derbyn
Meithrin Ran Amser yn dechrau ym mis Ionawr 2022	Plant a aned rhwng 01 Medi 2019 a 31 Rhagfyr 2019. Bydd y plant hyn yn troi'n dair oed rhwng 01 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022.	Ceisiadau'n agor – 10am, Dydd Llun, 10 Ionawr 2022 Ceisiadau'n cau – 4pm, Dydd Sadwrn , 27 Awst 2022 Dyddiad cynnig (ar gyfer lleoedd) - Erbyn 31 Hydref 2022
Meithrin Ran Amser yn dechrau ym mis Ebrill 2022	Plant a aned rhwng 01 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020. Bydd y plant hyn yn troi'n dair oed rhwng 01 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023.	

Rhaid i rieni/gofalwyr sicrhau eu bod yn dychwelyd y ffurflen berthnasol yn mynegi eu dewis cyntaf a'u hail ddewis erbyn y dyddiad cau a pheidio â chymryd yn ganiataol y bydd lle ar gael yn awtomatig i'w plentyn mewn ysgol benodol, er mai honno yw eu hysgol ddalgylch o bosibl.

Caiff y modd y mae'r awdurdod lleol yn ymdrin â cheisiadau hwyr ei nodi yn Rhan 1.

How the number of available part-time nursery class places is calculated

Wrth bennu nifer y lleoedd Meithrin Ran Amser sydd ar gael i'w dyrannu mewn unrhyw ysgol, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried y capasiti sydd ar gael ar gyfer disgyblion meithrin, y capasiti mewn perthynas â disgyblion Meithrin Amser Llawn a nifer y disgyblion Meithrin Amser Llawn sydd eisoes ar y gofrestr yn yr ysgol.

Sut mae lleoedd yn cael eu dyrannu mewn ysgolion di-ffydd cyfrwng Saesneg

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Os ywnifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso'r **meini prawf goralw** canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

1. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023 neu Ebrill 2023) sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a phlant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023 neu Ebrill 2023) yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Rhagfyr 2019 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023) ac y mae eu man preswylio arferol yn nalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Rhagfyr 2019 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023) nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni'r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Rhagfyr 2019 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023) ac y mae eu man preswylio arferol y tu allan i'r nalgylch diffiniedig yr ysgol.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

6. Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ebrill 2023) ac y mae eu man preswylio arferol yn nalgylch diffiniedig yr ysgol.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

7. Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ebrill 2023) nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni'r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

8. Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ebrill 2023) ac y mae eu man preswylio arferol y tu allan i'r nalgylch diffiniedig yr ysgol.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

Dyrannu lleoedd Meithrin Ran Amser mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffydd

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Os yw nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

1. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023 neu Ebrill 2023) sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a phlant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023 neu Ebrill 2023) yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023 neu Ebrill 2023) a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

4. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Rhagfyr 2019 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023) yn seiliedeg ar pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ebrill 2023) a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

6. Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Ran Amser o fis Ionawr 2023) yn seiliedeg ar pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

RHAN 3 – Cylchoedd derbyn (statudol) arferol

3.1 Cylch derbyn i ysgol gynradd/fabanod (blwyddyn derbyn)

Grŵp oedran perthnasol y flwyddyn Rerbyn yw 4-5 mlwydd oed.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod pob plentyn yn cael addysg lawn-amser o ddechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pumed pen-blwydd. Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, derbynnir pob plentyn fel arfer i ddosbarthiadau Derbyn yn y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed. Fodd bynnag, gall rhieni/gofalwyr ddewis gohirio mynediad eu plentyn i'r flwyddyn Derbyn tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Ni chaiff y gohiriad barhau ar ôl dechrau'r tymor sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed, nac ar ôl y flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais derbyn gwreiddiol ar ei chyfer gan yr awdurdod lleol. Pan fydd y rhiant/gofalwr yn dymuno gohirio mynediad y plentyn i'r flwyddyn Derbyn fel y nodir, bydd yr awdurdod lleol yn cadw lle ar gyfer y plentyn.

Mae'n rhaid cyflwyno cais am le yn y flwyddyn Derbyn. **Ni dderbynnir plant i'r flwyddyn Derbyn yn awtomatig mewn unrhyw ysgol gynradd neu fabanod, ni waeth ym mha ysgol y mae'r plentyn yn mynychu dosbarth meithrin.**

Dylai rhieni/gofalwyr sy'n dymuno ymgeisio am le blwyddyn Derbyn mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir gysylltu â'r ysgol honno'n uniongyrchol i gael ffurflen gais ar gyfer derbyn.

Cymhwystra a dyddiadau cylchoedd derbyn

Plant a aned rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018, sy'n dechrau mewn dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022:

Gweithred	**Dyddiad**
Ceisiadau'n agor	10am Dydd Llun, 22 Tachwedd 2021
Dyddiad cau i geisiadau ddod i law'r awdurdod lleol	4pm, Dydd Gwener, 11 Chwefror 2022
Hysbysu rhieni/gofalwyr eu bod yn cael cynnig/gwrthod lle (y dyddiad cynnig)	Dydd Mawrth, 19 Ebrill 2022
Dyddiad cau i rieni/gofalwyr apelio	4pm Dydd Mawrth, 17 Mai 2022

Dyrannu lleoedd blwyddyn Derbyn ar gyfer mis Medi 2022 mewn ysgolion di-ffydd cyfrwng Saesneg

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na'r NDC.

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Os ywnifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso'r **meini prawf goralw** canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant y mae eu man preswylio arferol o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 ar gyfer ysgolion cynradd , neu Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar gyfer ysgolion babanod, yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni'r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau Tymor yr Hydref 2022.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 ar gyfer ysgolion cynradd , neu Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar gyfer ysgolion babanod, yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 ar gyfer ysgolion cynradd , neu Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar gyfer ysgolion babanod, yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

Dyrannu lleoedd blwyddyn Derbyn ar gyfer mis Medi 2022 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffydd

Nid oes unrhyw ysgolion babanod Cymraeg neu gyfrwng ffydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

4. Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

3.2 Cylch derbyn i ysgol iau (Blwyddyn 3)

Mewn ysgolion cynradd, adrannau o'r un ysgol yw'r adrannau babanod ac iau a bydd plant yn symud drwy'r ysgol o'r adran fabanod i'r adran iau heb orfod trosglwyddo i rywle arall. **Nid** oes rhaid i rieni/ofalwyr lenwi ffurflen gais derbyn i ysgol felly, gan fod y plant eisoes wedi eu cofrestru fel disgyblion yn yr ysgol.

Nid yw plant sy'n mynychu Blwyddyn 2 mewn ysgol fabanod yn cael eu trosglwyddo yn awtomatig i Flwyddyn 3 mewn ysgol iau. Mae'n rhaid cyflwyno cais am le ym Mlwyddyn 3 mewn ysgol iau. **Nid oes derbyniad awtomatig i unrhyw ysgol iau na chynradd, ni waeth pa ysgol fabanod neu ysgol gynradd y mae plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd.**

Fel arfer, bydd plant yn dechrau Blwyddyn 3 yn yr ysgol iau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd sy'n dilyn eu pen-blwydd yn saith oed.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae un ysgol iau, hy Ysgol Iau Llangewydd, sy'n ysgol cyfrwng Saesneg.

Os nad yw'r rhieni/gofalwyr yn dymuno i'w plentyn fynychu Blwyddyn 3 mewn Ysgol Iau Llangewydd ac yn hytrach eu bod nhw'n dymuno i'w plentyn fynychu Blwyddyn 3 mewn ysgol gynradd safonol, mae'n rhaid iddynt gyflwyno cais am dderbyniad/drosglwyddiad yn ystod y flwyddyn. Dylai rhieni/gofalwyr nodi y gall lleoedd Blwyddyn 3 mewn ysgol gynradd safonol fod yn gyfyngedig iawn neu beidio â bod ar gael. Hefyd, ni fydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau mewn cysylltiad â cheisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn i ddechrau ym mis Medi 2022 tan ar ôl Pasg 2022.

Dylai rhieni/gofalwyr sy'n dymuno ymgeisio am le Blwyddyn 3 mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir gysylltu â'r ysgol honno'n uniongyrchol i gael ffurflen gais ar gyfer derbyn.

Cymhwystra a dyddiadau cylchoedd derbyn

Plant a aned rhwng 1 Medi 2014 a 31 Awst 2015, sy'n trosglwyddo o ysgol fabanod (Blwyddyn 2) i ysgol plant iau (Blwyddyn 3) ym mis Medi 2022:

Gweithred	**Dyddiad**
Ceisiadau'n agor	10am Dydd Llun, 22 Tachwedd 2021
Dyddiad cau i geisiadau ddod i law'r awdurdod lleol	4pm Dydd Gwener, 11Chwefror 2022
Hysbysu rhieni/gofalwyr eu bod yn cael cynnig/gwrthod lle (y 'dyddiad cynnig')	Dydd Mawrth, 19 Ebrill 2022
Dyddiad cau i rieni/gofalwyr apelio	4pm Dydd Mawrth, 17 Mai 2022

Dyrannu lleoedd ysgolion iau Blwyddyn 3 ar gyfer mis Medi 2022

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd os cynigir y lle olaf i blentyn a aned fel rhan o enedigaeth luosog (e.e. gefell neu dripled), bydd yr awdurdod lleol hefyd yn derbyn y sibling arall/siblingiaid eraill.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant y mae eu man preswylio arferol o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2022-2023 mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 6.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni'r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau Tymor yr Hydref 2022.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2022-2023 mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 6.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2022-2023 mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 6.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

3.3 Cylch derbyn i ysgol uwchradd (Blwyddyn 7)

F Fel arfer, bydd plant yn dechrau Blwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed.

Mae'n rhaid cyflwyno cais am le ym Mlwyddyn 7. **Nid oes derbyniad awtomatig i unrhyw ysgol uwchradd, ni waeth pa ysgol gynradd neu ysgol iau y mae plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd.**

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae un ysgol uwchradd Gymraeg, hy Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Mae un ysgol uwchradd fydd, hy Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath, nad yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar ei chyfer. Mae pob ysgol uwchradd arall yn gyfrwng Saesneg.

Dylai rhieni/gofalwyr sy'n dymuno ymgeisio am le Blwyddyn 7 yn Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath gysylltu â'r ysgol honno'n uniongyrchol i gael ffurflen gais ar gyfer derbyn.

Cymhwystra a dyddiadau cylchoedd derbyn

Plant a aned rhwng 1 Medi 2010 a 31 Awst 2011, sy'n trosglwyddo o'r usgol iau / gynradd (Blwyddyn 6) i'r ysgol uwchradd (Blwyddyn 7) ym mis Medi 2022:

Gweithred	**Dyddiad**
Ceisiadau'n agor	10am Dydd Llun, 18 Hydref 2021
Dyddiad cau i geisiadau ddod i law'r awdurdod lleol	4pm Dydd Gwener, 21 Ionawr 2022
Hysbysu rhieni/gofalwyr eu bod yn cael cynnig/gwrthod lle (y dyddiad cynnig)	Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2022
Dyddiad cau i rieni/gofalwyr apelio	4pm Dydd Mawrth, 29 Mawrth 2022

Dyrannu lleoedd ysgolion uwchradd Blwyddyn 7 ar gyfer mis Medi 2022 ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd os cynigir y lle olaf i blentyn a aned fel rhan o enedigaeth luosog (e.e. gefell neu dripled), bydd yr awdurdod lleol hefyd yn derbyn y sibling arall/siblingiaid eraill.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant y mae eu man preswylio arferol o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer.yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2022-2023 mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 11.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni'r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau Tymor yr Hydref 2022.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2022-2023 mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 11.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2022-2023 mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 11.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

Dyrannu lleoedd ysgolion uwchradd Blwyddyn 7 ar gyfer mis Medi 2022 ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

Os nad yw nifer y ceisiadau sydd i'w cynnwys yn y diwrnod dyrannu ar gyfer cynnig yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna derbynnir yr holl geisiadau a chynigir lleoedd.

Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2022-2023 mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 11.

4. Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

RHAN 4 – Derbyniadau Ôl-16

4.1 Chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol

Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer derbyniadau ôl-16 i'r chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol yn y fwrdeistref sirol. Fodd bynnag, yr ysgolion unigol sy'n gweinyddu'r trefniadau derbyn ar ran yr awdurdod lleol. Felly, dylai ceisiadau yn y categori hwn gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r ysgol.

Er bod gan yr awdurdod lleol bolisi o fynediad agored at chweched dosbarth mewn ysgolion, yr ysgolion unigol sy'n gyfrifol am bennu a chyhoeddi meini prawf mynediad ar gyfer derbyn i chweched dosbarth.

4.2 Sefydliadau addysg bellach eraill

Caiff trefniadau derbyn eu pennu gan y sefydliadau hyn a dylid cyflwyno ceisiadau'n uniongyrchol i'r sefydliad dan sylw.

RHAN 5 – Derbyniadau / trosglwyddiadau ar ganol blwyddyn

5.1 Amgylchiadau pan fo'n ofynnol i wneud cais derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn

Mae'n **rhaid** llenwi ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

1. Os ydy plentyn yn symud i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod blwyddyn academaidd a bod y rhieni/gofalwyr yn dymuno i'r plentyn fynychu ysgol yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar ei chyfer.

2. Os ydy rhieni/gofalwyr yn dymuno i'w plentyn/plant symud i ysgol arall ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod blwyddyn academaidd a bod y rhieni/gofalwyr yn dymuno i'w plentyn symud i ysgol yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar ei chyfer.

3. Os nad yw ffurflen gais am gylch derbyn wedi'i llenwi a'i chyflwyno i'r awdurdod lleol erbyn 31 Awst 2022 (h.y. bod cais yn cael ei gyflwyno ar ddyddiad dechrau swyddogol y flwyddyn academaidd 2022-2023 neu ar ôl y dyddiad hwnnw).

5.2 Trosglwyddiadau ysgol

Cynghorir rhieni/gofalwyr sy'n dymuno gwneud cais am le mewn ysgol wahanol am resymau heblaw am symud tŷ i ystyried yn ofalus ai hwn yw'r dull gweithredu mwyaf priodol a gorau i'w plentyn.

Mae llawer iawn o dystiolaeth yn dangos bod newid ysgol yn gallu amharu a chael effaith negyddol ar gyrhaeddiad disgybl. Mae llawer o resymau am hyn. Mae'n hynod bwysig ystyried yn ofalus effeithiau symud disgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11, a fyddai wedi dechrau astudio ar gyfer y pynciau y maent wedi'u dewis ar gyfer TGAU eisoes, ac efallai na fydd y pynciau hynny ar gael mewn ysgol wahanol.

Dylai rhieni/gofalwyr siarad â phennaeth ysgol bresennol y disgybl ynglŷn â'r rhesymau dros ystyried newid ysgol. Gallant helpu gyda sawl mater a all arwain at geisiadau newid ysgol.

5.3 Ceisiadau ymlaen llaw

Nid yw'n deg nac yn gyfiawn i'r awdurdod lleol gadw lleoedd ar gyfer plant am gyfnodau diangen. Bydd yr awdurdod lleol, felly, dim ond yn derbyn ceisiadau

derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn ‘ymlaen llaw’ h.y. ar gyfer dyddiad derbyn yn y dyfodol, pan fo’r dyddiad derbyn hwnnw y gwnaed cais amdano yn ystod y cyfnod hyd at ddiwedd yr hanner tymor canlynol a bod yr awdurdod lleol yn fodlon â’r rhesymau dros wneud y cais ymlaen llawn.

5.4 Nifer y lleoedd sydd ar gael

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na’r nifer derbyn cyhoeddedig.

Oherwydd y gall nifer y disgyblion ar gofrestr unrhyw ysgol newid yn aml, ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth am nifer y lleoedd sydd ar gael mewn unrhyw grŵp blwyddyn mewn unrhyw ysgol cyn i gais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn ddod i law.

5.5 Ystyried ceisiadau

Ystyrir ceisiadau derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn gan yr awdurdod lleol yn nhrefn bendant y dyddiad y daw’r cais i law.

Ar gyfer trosglwyddiadau/derbyniadau yn ystod y flwyddyn, nid yw’r lle mae’r plentyn yn byw mewn perthynas â'r ysgol y gofynnwyd amdani yn berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch cynnig lle yn yr ysgol y gwnaed cais amdani. Os oes lle ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gofynnwyd amdani, bydd yn cael ei gynnig.

Fodd bynnag, mae lle mae'r plentyn yn byw mewn perthynas â'r ysgol y gofynnwyd amdani yn berthnasol i'r penderfyniad a oes cymhwysedd ai peidio i ddarparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim. Os nad yr ysgol y gofynnir amdani yw'r ysgol / dalgylch addas agosaf, ni fydd cymhwysedd i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim.

Os nad oes lle ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gwnaed y cais amdani, bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod derbyn plentyn i’r ysgol honno ac eithrio dan amgylchiadau y mae’r awdurdod lleol o’r farn y dylid gwneud eithriad ar eu cyfer.

Pan fo lle yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gwnaed y cais amdani, os na wneir y cais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i newid man preswylio arferol y plentyn, neu os yw’r awdurdod lleol o’r farn nad oes angen symud ysgol ar unwaith o dan yr amgylchiadau, **bydd yr awdurdod lleol yn gohirio’r derbyn i ddechrau’r tymor ysgol nesaf**. Mae hyn er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysg y plentyn a’r plant eraill yn yr ysgol. Fodd bynnag, os yw'r ysgol bresennol a'r

ysgol a ffefrir fel ei gilydd yn cynghori'r awdurdod lleol ei fod yn gallu cefnogi mynediad y plentyn ar unwaith, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y plentyn yn unol â hynny.

5.6 Cyfathrebu'r canlyniad

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad eu cais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr i'r dyddiad y daeth y cais i law, pa un bynnag yw'r cynharaf.

Ni ddylai rhieni/gofalwyr ddisgwyl y bydd y canlyniadau yn cael eu cyfleu iddynt ar lafar.

Pe gwrthodir y cais, bydd yr hysbysiad yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a bydd yn rhoi gwybod i rieni/ofalwyr am y broses apelio. Gan fod addysg feithrin yn anstatudol, **nid oes gan rieni/ofalwyr unrhyw hawl i apelio yn erbyn ceisiadau aflwyddiannus ar gyfer ceisiadau i ddosbarthiadau meithrin.**

5.7 Cynnig lle mewn ysgol arall

Os gwrthodir lle yn yr ysgol a ffefrir, bydd yr awdurdod lleol yn cynnig lle yn yr ysgol amgen agosaf sydd â lle ar gael yn y flwyddyn berthnasol neu'n egluro pam na ellir gwneud cynnig o'r fath (ee os mai'r ysgol amgen agosaf yw ysgol gyfredol y plentyn). Bydd y cynnig o le yn yr ysgol amgen agosaf ar agor am 10 diwrnod o ddyddiad llythyr yr awdurdod lleol a bydd yn dod i ben yn awtomatig os na dderbynnir ef o fewn yr amser hwnnw.

Os na dderbynnir cynnig lle yn yr ysgol amgen agosaf, neu ei wrthod yn benodol, rhaid i'r rhiant / gofalwr gyflwyno cais newydd os yw'n ceisio lle mewn unrhyw ysgol arall a ffefrir.

5.8 Rhestrau aros

Mae'r awdurdod lleol yn cadw rhestrau aros ar gyfer ysgolion lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Os na chynigir lle yn yr ysgol a ffefrir, bydd y plentyn yn cael ei gynnwys yn awtomatig ar restr aros yr ysgol honno oni bai bod y rhiant/gofalwr wedi dweud yn benodol wrth yr awdurdod lleol nad yw hyn yn ofynnol.

Ar gyfer ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, bydd plant yn parhau i fod ar y rhestr aros ar gyfer unrhyw ysgol y gwrthodwyd lle iddynt ynddi am gyfnod o 3 mis o'r dyddiad y gwrthodwyd y lle. Bydd plant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr/au aros yn awtomatig ar ôl i'r cyfnodau hyn ddod i ben.

Ni fydd cyflwyno cais newydd i dderbyn/drosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn adnewyddu lle plentyn ar restr aros. Os cyflwynir a gwrthodir cais newydd i dderbyn/drosglwyddo yn ystod y flwyddyn, bydd y plentyn yn cael ei gofnodi fel enw newydd ar y rhestr aros o'r dyddiad gwrthod.

Nid yw cofrestru apêl derbyn yn ymestyn amser plentyn ar y rhestr aros, ni waeth beth yw dyddiad gwrandawiad yr apêl derbyn.

Os bydd lleoedd ychwanegol yn codi mewn ysgol, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig (gweler adran 15 ac 16) **nid** ar sail yr amser y mae disgybl wedi bod ar y rhestr aros.

Ni ellir dyrannu lle i blentyn nad yw ar y rhestr aros.

RHAN 6 – Polisïau derbyn 2022-2023 ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

6.1 Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis

A. Yr Awdurdod Derbyn

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis yw Awdurdod Derbyn yr ysgol. Er ei fod yn gyfrifoldeb am ei bolisi a'i weithdrefnau, rhaid i'r Corff Llywodraethu ymgynghori'n flynyddol ag Awdurdodau Derbyn eraill o fewn radiws o dair milltir i'r ysgol. Gwneir y datganiad hwn a'r rheolau o dan ddarpariaethau'r deddfau addysg, yn benodol Cod Ymarfer Derbyniadau Ysgol ac Apelau Derbyn Llywodraeth Cymru ac yn unol â Gweithred Ymddiriedolaeth ac Offeryn Llywodraethu yr ysgol.

B. Dewis Rhieni

Rhaid i Rieni/Gofalwyr sy'n dymuno i'w plentyn/plant fynychu'r ysgol hon gysylltu â'r ysgol i gael y ffurflenni cais perthnasol. Nid yw dewis rhieni yn berthnasol dan yr amgylchiadau canlynol:

- Byddai derbyn y plentyn er anfantais i ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnydd o adnoddau;
- Mae'r plentyn wedi ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy. Caiff y gofyniad i gydymffurfio â dewis rhieni ei ddatgymhwyso am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn yr ail waharddiad. Nid yw hyn yn berthnasol i ddisgyblion iau nag oedran ysgol statudol pan gawsant eu gwahardd ac nid yw'n berthnasol i ddisgyblion a gafodd eu hadfer ar ôl gwaharddiad;
- Byddai derbyn yn anghydnaws â'r ddyletswydd statudol i fodloni terfynau maint dosbarthiadau babanod o 30.

C. Amserlen Derbyn i’r Dosbarth Derbyn ym Medi 2022

Derbyniadau i'r derbyn - ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018, yn mynd i mewn i ddosbarth derbyn ym mis Medi 2022:

Gweithred	Dyddiad
Dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau	Dydd Llun 22 Tachwedd 2021 am 10:00am
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan yr ysgol	Dydd Gwener 11 Chwefror 2022 am 4:00pm
Hysbysiad i ymgeiswyr o gynnig neu wrthod lleoedd (y 'dyddiad cynnig')	Nos Wener 8 Ebrill 2022

Dyddiad cau i rieni/gofalwyr gyflwyno apêl	Dydd Mawrth 17 Mai 2022 am 4:00pm

D. Derbyn i'r Dosbarth Meithrin

Nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol yw 30. Mae'r nifer derbyn yn seiliedig ar gapasiti ffisegol yr ysgol i ddarparu ar gyfer disgyblion ac felly ni ddylid derbyn mwy na hyn dan amgylchiadau arferol.

Os na dderbynnir mwy na'r niferoedd statudol, mae lleoedd meithrin rhan-amser ar gael i blant yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae lleoedd Meithrin llawn-amser ar gael i blant yn y mis Medi yn y flwyddyn academaidd y byddant yn 4 oed. Mae ffurflenni derbyn ar gael gan yr ysgol a bydd rhieni sydd wedi gofyn am le Meithrin yn cael gwybod yn ystod y tymor cyn i'r plentyn gael ei dderbyn. Fel gyda phob ysgol, ni fydd plentyn yn y dosbarth meithrin yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r dosbarth derbyn. Bydd angen i rieni wneud cais am le mewn dosbarth derbyn gan ddefnyddio 'Ffurflen Derbyn' safonol yr ysgol. Os gwrthodir y cais bydd llythyr yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad ac yn cynghori Rhieni/Gofalwyr ynglŷn â'r broses apelio.

Derbyniadau dosbarth meithrin llawn-amser – disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2018 a 31 Awst 2019, yn dechrau mewn dosbarth meithrin llawn-amser ym mis Medi 2022:

Gweithred	**Dyddiad**
Dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau	Dydd Llun 10 Ionawr 2022 am 10:00am
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan yr ysgol	Dydd Gwener 25 Mawrth 2022 at 4:00pm
Hysbysiad i ymgeiswyr o gynnig neu wrthod lleoedd (y 'dyddiad cynnig')	Dydd Llun 16 Mai 2022

Derbyniadau dosbarth meithrin rhan-amser – disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Rhagfyr 2019, yn dechrau mewn dosbarth meithrin rhan-amser yn Ionawr 2023:

Gweithred	**Dyddiad**
Dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau	Dydd Mawrth 4 Ionawr 2022 am 10:00am

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan yr ysgol	Dydd Llun 5 Medi 2022 at 10:00am
Hysbysiad i ymgeiswyr o gynnig neu wrthod lleoedd	Erbyn Dydd Gwener 28 Hydref 2022

Derbyniadau dosbarth meithrin rhan-amser – disgyblion a anwyd rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2021, yn dechrau mewn dosbarth meithrin rhan-amser yn Ebrill 2023:

Gweithred	Dyddiad
Dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau	Dydd Mawrth 4 Ionawr 2022 am 10:00am
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan yr ysgol	Dydd Llun 5 Medi 2022 at 10:00am
Hysbysiad i ymgeiswyr o gynnig neu wrthod lleoedd	Erbyn Dydd Gwener 28 Hydref 2022

E. Deddfwriaeth Maint Dosbarth Babanod

Er mwyn gwella safonau addysgol mewn ysgolion, mae deddfwriaeth y llywodraeth yn cyfyngu ar nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau babanod i uchafswm o 30 disgybl i bob dosbarth. Efallai bydd ysgolion ond yn gwrthod derbyn ar sail maint dosbarth babanod pan gyrhaeddwyd y nifer derbyn.

F. Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd

Mae Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yn ffurfio canolbwynt canolog i'r profiadau y mae disgyblion yn eu cael yn ein hysgol. Mae Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd yn unol ag addysgu ac arferion enwadol yr Eglwys yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael ym mhrosbectws yr ysgol.

G. Cyfle Cyfartal

Mae'r Corff Llywodraethu bob amser yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol o ran cyfle cyfartal, hawliau dynol a Deddf yr Iaith Gymraeg.

H. Oedran Ysgol Statudol

Rhaid i blant oed ysgol statudol fynychu addysg llawn-amser o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed.

I. Meini prawf ar gyfer Penderfynu ar Dderbyniadau

Mae'r ysgol yn agored i unrhyw blant oedran ysgol statudol y mae eu rhieni'n dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn ysgol â chymeriad Cristnogol neilltuol ac yn unol â dysgeidiaethau'r Eglwys yng Nghymru. Os bydd mwy o geisiadau nag sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn dyfarnu lleoedd i ymgeiswyr yn ôl eu gallu i fodloni'r meini prawf derbyn a ganlyn yn nhrefn blaenoriaeth.

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio ag adran 106 o Ddeddf Addysg 2005 i roi blaenoriaeth i Blant Sy'n Derbyn Gofal (LAC)

1. Plant sy'n derbyn gofal gan deuluoedd sy'n arfer ffydd Anglicanaidd;
2. Plant o deuluoedd sy'n arfer ffydd Anglicanaidd;
3. Pob plentyn arall sy'n derbyn gofal
4. Plant o bob ffydd arall sy'n addoli'n rheolaidd;
5. Plant sydd eisoes â brawd neu chwaer yn yr ysgol;
6. Plant sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y mae eu rhieni yn dewis i'w plentyn/plant gael eu haddysgu mewn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol gan ddefnyddio system feddalwedd Routefinder GIS i fesur pellteroedd.

Diffiniadau

- *Rheolaidd – o leiaf ddwywaith y mis. Bydd angen geirda clerigol hefyd.*
- *Brodyr a Chwiorydd – Brawd neu chwaer yw hanner brawd/chwaer neu frawd/chwaer llawn; brawd /chwaer mabwysiedig; plentyn yn byw ar yr un aelwyd.*
- *Byw agosaf i'r ysgol - cyfeiriad parhaol rhiant neu warchodwr cyfreithiol. Bydd angen prawf o'r cyfeiriad.*

J. Gordanysgrifo

Mae gan bob ymgeisydd aflwyddiannus yr hawl i apelio at Banel Apêl Derbyn annibynnol. Dylid anfon llythyrau apêl at Glerc y Llywodraethwyr yn yr ysgol o fewn 10 diwrnod ysgol.

Gall rhieni y mae eu plentyn/plant wedi bod yn aflwyddiannus wrth sicrhau lle ofyn i'r ysgol gadw eu cais ar ffeil. Os bydd lleoedd ychwanegol ar gael bydd y rhain yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio meini prawf derbyn yr ysgol ac nid ar hyd yr amser y mae'r enw wedi bod ar y rhestr.

K. Trosglwyddo Canol Tymor/Blwyddyn

Bydd gofyn i rieni sy'n symud i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y flwyddyn academaidd lenwi 'Ffurflen Dderbyn' yr ysgol yn gofyn am dderbyniad i'r ysgol. Os yw rhieni yn symud o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac eisiau derbyniad i'r ysgol hon bydd angen llenwi 'Ffurflen Trosglwyddo Ysgol' hefyd.

Gall Rhieni/Gofalwyr hefyd ddymuno gwneud cais am le yn yr ysgol hon am resymau ar wahân i symud tŷ. Yn yr achosion hyn, byddant yn cael eu hannog i siarad â'r pennaeth i egluro'r rhesymau dros newid ysgol a bydd angen llenwi 'Ffurflen Trosglwyddo Ysgolion' a 'Ffurflen Derbyn i'r Ysgol'.

L. Derbyn y tu allan i'r Grŵp Oedran Arferol

Fel arfer ni fyddai'r Corff Llywodraethu yn disgwyl derbyn plentyn allan o'i grŵp oedran cronolegol arferol. Ond yn achlysurol gall Rhieni/Gofalwyr fod yn chwilio am le ysgol i'w plentyn y tu allan i'w grŵp blwyddyn arferol. Bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried pob achos yn unigol ac yn gwneud penderfyniad wrth ymgynghori â'r ysgol, Rhieni/Gofalwyr ac unrhyw asiantaethau eraill dan sylw.

Bydd y Corff Llywodraethu yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol gan ymgynghori ag awdurdodau derbyn perthnasol eraill.

6.2 Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair

Ysgol Gatholig dan ymddiriedolaeth Archesgobaeth Caerdydd yw Santes Fair. Mae'n cael ei gynnal gan Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, y Corff Llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau am dderbyniadau.

Arweinir y Corff Llywodraethu yn ei gyfrifoldeb dros dderbyniadau gan ofynion y gyfraith, gan gyngor ymddiriedolwyr yr Archesgobaeth a'i ddyletswydd i'r Ysgol a'r gymuned Gatholig. Yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol, mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am benderfynu derbyniadau i'w 'Banel Derbyn', sef Pwyllgor o'r Corff Llywodraethu. Bydd y Panel Derbyn yn ystyried pob cais a wneir yn unol â'r meini prawf fel y nodir, heb gyfeirio at hil, rhyw, gallu, anabledd, cefndir cymdeithasol na dawn y plentyn. Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried yn unol â gofynion y *Cod Derbyn Ysgolion*.

Ar ôl ymgynghori â'r ALl ac eraill yn unol â gofynion y gyfraith, mae'r Corff Llywodraethu wedi pennu ei rif derbyn arfaethedig ar 30 o ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym mis Medi 2022. Mae'n rhaid i rieni/gwarchodwyr sy'n dymuno gwneud cais am le i'w plentyn ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd 2022-2023 lenwi'r ffurflen gais yn llawn, a'i dychwelyd i'r ysgol dim hwyrach na'r Dyddiad Cau a gyhoeddwyd ar gyfer ceisiadau. Nodwch fod yn rhaid i BOB cais gael ei gyflwyno ar y ffurflen hon. Sylwch fod yn rhaid i bob cais dan feini prawf 1, 2 a 3 (plant Catholig sydd wedi'u bedyddio) gynnwys prawf o fedyddio. Bydd plant sydd â datganiad AAA sy'n enwi'r ysgol yn cael eu derbyn.

Bydd llythyrau yn cael eu hanfon ar y Dyddiad Cynnig Cyffredin a gyhoeddwyd, gan eich hysbysu am benderfyniad y Panel Derbyn ar eich cais. Os nad yw'r cais yn llwyddiannus, bydd y rheswm/rhesymau yn cael eu nodi'n glir yn y llythyr, a byddwch yn cael gwybodaeth ynglŷn â sut i apelio'r penderfyniad. Bydd ymgeiswyr na chaiff eu

derbyn yn cael eu rhoi ar Restr Aros yr ysgol. Bydd ymgeiswyr yn aros ar y Rhestr Aros tan 30 Medi, 2022. Os bydd lleoedd yn dod ar gael, bydd yr ymgeiswyr ar y Rhestr Aros yn cael eu hadolygu yn erbyn y Meini Prawf Gordanysgrifo a gwneir cynigion i lenwi'r lleoedd sydd ar gael.

Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn gwrthodiad gan y Corff Llywodraethu i dderbyn eu plentyn. Os ydynt am wneud hynny, dylent gyflwyno eu hapêl yn ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr yn yr Ysgol o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o'r dyddiad hysbysu. Caiff apeliadau eu trefnu, gyda phanel annibynnol a'u cynnal yn unol â'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion.

Ar gyfer pob cais llwyddiannus, caiff y data ar y ffurflen gais eu cadw ar system gwybodaeth reoli'r ysgol a'u defnyddio at ddibenion a amlinellir yn y 'gorchymyn prosesau teg'. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb a diogelwch data personol a gedwir gan yr Ysgol. Dan y Ddeddf Diogelu Data, mae gan unigolion yr hawl i weld gwybodaeth bersonol a gedwir amdanynt, a hefyd yr hawl i unrhyw wallau gael eu cywiro.

Bydd y Corff Llywodraethu yn asesu ceisiadau i dderbyn plentyn i'r ysgol, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Gais Derbyn i Ysgolion. Os yw nifer y ceisiadau'n hafal neu'n llai na'r nifer derbyn, bydd pob cais yn cael ei dderbyn. Os yw nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifo canlynol ac yn dyrannu lleoedd yn unol â hynny.

Meini Prawf Gordanysgrifo

1. Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n derbyn gofal neu Blant Catholig wedi'u bedyddio a arferai dderbyn gofal (rhaid cyflwyno prawf o fedyddio gyda'r ffurflen gais).

2. Plant Catholig wedi'u bedyddio (rhaid cyflwyno prawf o fedyddio gyda'r ffurflen gais).

3. Brodyr a chwiorydd plant Catholig wedi'u bedyddio a fydd yn mynychu Ysgol y Santes Fair ar adeg derbyn (gweler nodyn 3 isod).

4. Plant sy'n derbyn gofal neu blant a arferai dderbyn gofal sy'n cael eu bedyddio mewn enwad Cristnogol arall (rhaid cyflwyno prawf o fedyddio gyda'r ffurflen gais).

5. Plant eraill sy'n derbyn gofal neu blant a arferai dderbyn gofal

6. Plant sydd wedi'u bedyddio mewn enwad Cristnogol arall (rhaid cyflwyno prawf o fedyddio gyda'r ffurflen gais).

7. Brodyr a chwiorydd plant wedi'u bedyddio mewn enwad Cristnogol arall a fydd yn mynychu Ysgol y Santes Fair ar adeg ei derbyn (gweler nodyn 3 isod).

8. Plant eraill y mae rhieni/gwarcheidwaid yn chwilio am addysg Gristnogol benodol ar eu cyfer.

Os yw nifer y disgyblion mewn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r Nifer Derbyn, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio, fel ffactor penderfynu, y pellter byrraf, mwyaf diogel, i'r disgybl o'r cartref i'r ysgol gan ddefnyddio'r System Feddalwedd GIS a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol.

Nodiadau

1. Mae 'Catholig' hefyd yn cynnwys Eglwysi Catholig y Dwyrain yn unol ag Esgobaeth Rhufain.

2. Rhaid i bob cais ar gyfer meini prawf 1, 2 a 3 gynnwys prawf o fedyddio.

3. Mae 'brodyr a chwiorydd' yn cael eu diffinio fel y rhai sy'n rhannu mam neu dad cyffredin, mam neu dad mabwysiedig, neu'n rhan o uned deuluol sefydledig. Rhoddir blaenoriaeth drwy gyfeirio at y brawd neu chwaer ieuengaf yn yr ysgol, yr ieuengaf fydd yn gorchymyn y radd uchaf o flaenoriaeth. Wrth ddyrannu lleoedd, os cynigir y lle olaf i blentyn geni lluosog (e.e. efeilliaid neu dripledi), bydd yr ysgol hefyd yn derbyn y brawd neu chwaer arall.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda. Dylid anfon pob ffurflen gais at:
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair
Ffordd Llangewydd
Pen-y-bont
CF31 4JW

6.3 Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig

"*Sefydlwyd yr ysgol gan ac mae'n rhan o'r Eglwys Gatholig. Mae'r ysgol i'w chynnal fel Ysgol Gatholig yn unol â chyfraith ganonaidd a dysgeidiaethau'r Eglwys Gatholig Rufeinig, ac yn unol* ***â GWEITHRED YMDDIRIEDOLAETH ARCHESGOBAETH CAERDYDD*** *ac yn arbennig:*

(a) addysg grefyddol yw bod yn unol â dysgeidiaeth, athrawiaethau, disgyblaeth a normau cyffredinol a penodol yr Eglwys Gatholig;

(b) addoli crefyddol yw bod yn unol â defodau, arferion, disgyblaethau a normau litwrgaidd yr Eglwys Gatholig;

ac ar bob adeg mae'r ysgol i wasanaethu fel tyst i'r ffydd Gatholig yn Ein Harglwydd Iesu Grist. "
(Offeryn Llywodraeth, 2012)

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am dderbyniadau i **YSGOL GYNRADD GATHOLIG SANTES FAIR A SANT PADRIG** ac yn ceisio caniatáu i bawb sy'n mynegi awydd am addysg Gristnogol ddod i'r ysgol hon.

Y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd ar gyfer yr Ysgol ar hyn o bryd yw 24.

Rhaid i bob cais am dderbyniad i **YSGOL GYNRADD GATHOLIG SANTES FAIR A SANT PADRIG,** gan gynnwys y rhai sydd ar hyn o bryd yn Nosbarth Meithrin yr ysgol, fod trwy ffurflen gais sydd ar gael gan yr ysgol. Rhaid cyflwyno'r ffurflen hon i'w hystyried erbyn y dyddiad cau a gyhoeddir y gellir ei gael gan yr ysgol, ei weld ar y ffurflen gais neu ym mhrosbectws cyfansawdd yr Awdurdod Lleol.

Nid yw bod yn ddisgybl yn y dosbarth Meithrin yn **YSGOL GYNRADD GATHOLIG SANTES FAIR A SANT PADRIG** yn gwarantu lle yn Nosbarth Derbyn yr Ysgol, nac yn rhoi blaenoriaeth i'w dderbyn.

Gall plant ddechrau yn y Dosbarth Derbyn o fis Medi'r flwyddyn ysgol pan fyddant yn cyrraedd 5 oed. Fodd bynnag, gellir oedi derbyn tan (ond dim mwy na) y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed.

MEINI PRAWF GORDANYSGRIFO

Os oes mwy o geisiadau ar gyfer derbyn nag sydd o leoedd, yna defnyddir y meini prawf gordanysgrifo canlynol:

1. Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n derbyn gofal.
2. Plant Catholig wedi'u bedyddio.
3. Plant nad ydynt yn Gatholig sy'n derbyn gofal.
4. Brodyr a chwiorydd plant Catholig wedi'u bedyddio a fydd yn mynychu'r ysgol ar adeg derbyn (bydd brodyr a chwiorydd yn y blynyddoedd iau yn hawlio mwy o flaenoriaeth).
5. Plant wedi'u bedyddio neu sy'n aelodau cydnabyddedig o enwadau Cristnogol eraill ac y mae eu rhieni/gwarchodwyr yn dymuno iddynt gael eu haddysg mewn Ysgol Gristnogol.
6. Plant a fydd â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol adeg eu derbyn (bydd brodyr a chwiorydd mewn blynyddoedd iau yn gorchymyn mwy o flaenoriaeth.)
7. Pob ymgeisydd arall.

Brawd neu chwaer yw hanner brawd/chwaer neu frawd/chwaer llawn, brawd/chwaer sydd wedi ei fabwysiadu, neu blentyn sy'n byw ar yr un aelwyd. Wrth ddyrannu lleoedd, os cynigir y lle olaf i blentyn geni lluosog (e.e. efeilliaid neu dripledi) bydd y Corff Llywodraethu hefyd yn derbyn y brodyr a chwiorydd eraill.

Os bydd amgylchiadau'n codi lle mae modd derbyn rhai ond nid pob plentyn yn unrhyw un o'r categorïau uchod, rhoddir blaenoriaeth i blant y mae eu cartrefi o fewn y pellter cerdded byrraf yn ôl mesuriad gan y system GPS a gymeradwyir gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd.

Bydd angen i geisiadau sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer blaenoriaeth yng Nghategorïau 1, 2 a 5, ddarparu copi o dystysgrif fedyddio neu lythyr yn cadarnhau aelodaeth gan eu gweinidog eu hunain fel y bo'n briodol.

Bydd pob cais a ddaw i law erbyn y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yn cael eu hystyried gyda'i gilydd a llythyrau sy'n cynnwys cynnig neu wrthod lle yn cael eu hanfon ar y Dyddiad Cynnig Cyffredin. Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y rhai sydd wedi bodloni'r dyddiad cau.

Gellir cadarnhau'r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio a dyddiadau Cynnig Cyffredin trwy gysylltu â'r Ysgol neu gyfeirio at brosbectws cyfansawdd yr Awdurdod Lleol.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gadarnhau derbyn cynnig o dderbyniad erbyn y dyddiad cau a nodir yn y llythyr cynnig. Gall methu â gwneud hynny arwain at dynnu'r cynnig yn ôl a rhoi lle'r Plentyn i ymgeisydd arall.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu rhoi ar restr aros tan 31 Awst. Bydd unrhyw leoedd ychwanegol yn cael eu dyrannu yn unol â'r Meini Prawf Gordanysgrifo fel yr uchod.

Bydd ceisiadau o fewn y flwyddyn i dderbyn yn cael eu derbyn pan fydd lleoedd. Pan fydd mwy o geisiadau mewn blwyddyn yn cael eu derbyn na sydd yna o leoedd, bydd yr holl geisiadau'n cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf gordanysgrifo uchod.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Derbyn y Corff Llywodraethu (sylwer, nid oes apêl ynghylch Derbyniadau Meithrin) lenwi'r Ffurflen Apeliadau. Rhaid dychwelyd y ffurflen wedi ei chwblhau o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o roi gwybod am wrthod:

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair a Sant Padrig

Stryd Monica

Maesteg

CF34 0AY

Bydd pob apêl yn cael ei chlywed gan Banel Apeliadau Annibynnol ac yn cael ei chynnal yn unol â *Chod Apeliadau Derbyn Ysgolion*.

6.4 Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert

Gobeithiwn dderbyn i'r ysgol unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno cael addysg wedi'i seilio'n gadarn ar yr egwyddorion a roddwyd i ni gan Iesu Grist. Gobeithiwn fod pob disgybl yn cael ei addysgu mewn awyrgylch o gariad, ac yn dysgu yn bennaf i gyfrannu at yr awyrgylch Gristnogol gariadus hon yn yr ysgol ac yn y cartref.

Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at dderbyniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022-23 yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert sy'n Ysgol Gatholig a sefydlwyd gan yr Eglwys i ddarparu addysg i blant Catholig. Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, y Corff Llywodraethu sydd â'r unig gyfrifoldeb am dderbyniadau i'r ysgol.

Mae Deddf Addysg 1980, Adran 6, yn rhoi'r hawl i rieni fynegi dewis o ran pa ysgol y bydd eu plant yn mynychu. Bydd derbyniad i'r ysgol yn cael ei wneud yn unol â dewis rhieni yn amodol ar y drefn blaenoriaeth a restrir isod.

(Noder: Ar gyfer pob maen prawf, rhoddir blaenoriaeth yn Ysgol Sant Robert i Blant Sy'n Derbyn Gofal yn unol ag Adran 106 o Ddeddf Addysg 2005 a Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant mewn Gofal) (Cymru) 2009:

Y meini prawf ar gyfer derbyn plant yw, yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n derbyn gofal.
2. Plant Catholig wedi'u bedyddio.
3. Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u bedyddio mewn enwad Cristnogol arall.
4. Plant sydd wedi'u bedyddio mewn enwad Cristnogol arall.
5. Plant eraill sy'n derbyn gofal.
6. Plant sydd â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol adeg eu derbyn.
7. Plant y mae eu rhieni/gwarchodwyr yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Gristnogol ac sy'n cefnogi ethos Gatholig yr Ysgol.

Wrth ystyried ceisiadau'n ymwneud â'r categorïau hyn, efallai y bydd yn rhaid sefydlu trefn blaenoriaeth drwy gyfeirio at:

- *oedran unrhyw frawd neu chwaer yn yr ysgol dderbyn; y brawd neu chwaer ieuengaf sy'n gorchymyn y radd uchaf o flaenoriaeth.*
- *agosrwydd cartref y disgybl i'r ysgol dderbyn fel y'i mesurir gan y pellter cerdded byrraf ymarferol. Bydd y llywodraethwyr yn defnyddio system feddalwedd Routefinder GIS i fesur pob pellter.*

Bydd ceisiadau gan blant sydd ag anghenion arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hystyried yng nghyd-destun pob un o'r meini prawf ac yn unol â Pholisi Anghenion Ychwanegol yr Ysgol.

At ddibenion derbyn mae brawd neu chwaer yn blentyn sy'n byw yn yr un cyfeiriad sef brawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant sy'n rhannu un rhiant cyffredin), llysfrawd/chwaer lle mae dau blentyn yn gysylltiedig mewn priodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant mabwysiedig neu blant maeth yn yr un cyfeiriad.

Ymgeiswyr Llwyddiannus

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gadarnhau derbyn cynnig a wnaed gan y Corff Llywodraethu erbyn y dyddiad cau a nodir yn y llythyr cynnig. Gall methu â gwneud hynny arwain at dynnu'r cynnig yn ôl a dyrannu'r lle i ymgeisydd arall.

Ymgeiswyr Aflwyddiannus

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu rhoi ar restr aros am y flwyddyn academaidd honno a phan fydd lle yn dod ar gael fe fydd yn cael ei ddyrannu gan ddefnyddio meini prawf gordanysgrifo nid hyd yr amser ar y rhestr aros.

Ceisiadau yn ystod y Flwyddyn

Bydd ceisiadau a dderbynnir y tu allan i'r rownd dderbyn 'o fewn blwyddyn' arferol pan nad oes lle ar gael yn y grŵp blwyddyn hwnnw yn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor y gwneir y cais ynddo. Wedi'r cyfnod hwn bydd disgwyl i rieni wneud cais arall am dderbyniad i'r ysgol.

Hawl i Apelio

Pan wrthodir derbyn plentyn i'r ysgol, bydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifennu at y rhieni gan roi manylion llawn pam y gwrthodwyd y cais, yn sgil y meini prawf a gyhoeddwyd. Mae gan rieni'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais a fydd yn cael ei glywed gan banel apêl annibynnol. Bydd dyfarniad y panel apêl yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar Apeliadau Derbyn Ysgolion ac yn rhwymo pob parti. Rhaid anfon yr apêl yn ysgrifenedig at Glerc y Llywodraethwyr t/l Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda.

Dylid anfon pob ffurflen gais wedi ei llenwi i:

Ysgol Gynradd Gatholig St Robert
Dan-y-Lan
Abercynffig
Pen-y-bont
CF32 9AB

6.5 Ysgol Uwchradd Gatholig Yr Archesgob McGrath

Corff Llywodraethu yr Ysgol sy'n gyfrifol am benderfynu a gweinyddu'r Polisi yn ymwneud â derbyn disgyblion i'r Ysgol. Caiff ei arwain yn y cyfrifoldeb hwnnw gan ofynion y gyfraith, gan gyngor ymddiriedolwyr yr Esgobaeth a'i dyletswydd i'r Ysgol a'r gymuned Gatholig.

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, mae gan y Corff Llywodraethu gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo am benderfynu derbyniadau i'w 'Banel Derbyn', is-bwyllgor o Fwrdd y Llywodraethwyr. Bydd y Panel Derbyn yn ystyried pob cais a wneir yn unol â'r meini prawf a nodir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon, heb gyfeirio at hil, rhyw, gallu, anabledd, cefndir cymdeithasol na dawn y plentyn.

Ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol ac eraill yn unol â gofynion y gyfraith, mae'r Corff Llywodraethu wedi pennu ei nifer derbyn arfaethedig ar **131** o ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym mis Medi 2022. Mae lleoedd mewn grwpiau blwyddyn eraill hefyd wedi'u cyfyngu i **131**.

Mae'n rhaid i rieni/gwarchodwyr sy'n dymuno gwneud cais am le i'w plentyn ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd 2022-23 lenwi'r ffurflen gais amgaeedig yn llawn, a'i dychwelyd i'r ysgol dim hwyrach na'r Dyddiad Cau a gyhoeddwyd ar gyfer ceisiadau. Nodwch fod yn rhaid i BOB cais gael ei gyflwyno ar y ffurflen hon a bydd pob cais yn cael ei ystyried ar yr un pryd. Bydd llythyrau yn cael eu hanfon ar y Dyddiad Cynnig Cyffredin a gyhoeddwyd, gan roi gwybod i chi am benderfyniad y Panel Derbyn ynghylch eich cais. Os nad yw'r cais yn llwyddiannus, bydd y rheswm/rhesymau yn cael eu nodi'n glir yn y llythyr, a byddwch yn cael gwybodaeth ynglŷn â sut i apelio'r penderfyniad. Bydd ymgeiswyr na chaiff eu derbyn yn cael eu rhoi ar Restr Aros yr ysgol. Bydd ymgeiswyr yn aros ar y Rhestr Aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd. Os bydd lleoedd yn dod ar gael, bydd yr ymgeiswyr ar y Rhestr Aros yn cael eu hadolygu yn erbyn y Meini Prawf Gordanysgrifo a gwneir cynigion i lenwi'r lleoedd sydd ar gael.

Dylid gwneud ceisiadau i **drosglwyddo i'r ysgol o ysgol uwchradd arall** yn ystod y flwyddyn academaidd drwy ddefnyddio'r Ffurflen Gais Trosglwyddo Ysgolion benodol. Bydd y Panel Derbyn i'r Corff Llywodraethu yn ystyried pob cais. Os yw'r nifer sy'n gofyn am drosglwyddo yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y Meini Prawf Gordanysgrifo yn cael eu defnyddio i benderfynu ar ymgeiswyr llwyddiannus. Os yw'r grŵp blwyddyn arbennig yn llawn, bydd ymgeiswyr yn cael eu gosod ar Restr Aros yr ysgol. Bydd ymgeiswyr yn aros ar y Rhestr Aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd. Os bydd lleoedd ar gael, bydd y ceisiadau ar y Rhestr Aros yn cael eu hadolygu yn erbyn y Meini Prawf Gordanysgrifo a gwneir cynigion i lenwi'r lleoedd sydd ar gael.

Mae gan rieni **hawl i apelio** yn erbyn gwrthodiad gan y Corff Llywodraethu i dderbyn eu plentyn. Os ydynt am wneud hynny, dylent gyflwyno eu hapêl yn ysgrifenedig at

Glerc y Llywodraethwyr yn yr Ysgol o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o'r dyddiad hysbysu. Caiff apeliadau eu trefnu, gyda phanel annibynnol a'u cynnal yn unol â'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion.

Ar gyfer pob cais llwyddiannus, caiff y data ar y ffurflen gais eu storio ar system gwybodaeth reoli'r ysgol a'u defnyddio at ddibenion a amlinellir yn y 'gorchymyn prosesau teg'. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb a diogelwch data personol a gedwir gan yr Ysgol. O dan y Ddeddf Diogelu Data, mae gan unigolion yr **hawl i weld gwybodaeth bersonol** a gedwir amdanynt, a hefyd i unrhyw wallau gael eu cywiro.

Anfonwch ffurflen gais (a dogfennau ategol) at:

E-bost: admissions@archbishopmg.co.uk

Panel Derbyn y Llywodraethwyr
Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath
Ffordd y Coed Derw
Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 2DN

Gellir dod o hyd i ddyddiadau perthnasol y cyfeirir atynt yn flaenorol ar wefan yr ysgol neu ar wefan yr awdurdod lleol.

Gwefan yr ysgol: http://www.archbishopmg.co.uk

RHAN 7 – Apeliadau Derbyn

7.1 Addysg feithrin

Nid oes hawl i apelio mewn perthynas â gwrthod derbyn plentyn i addysg feithrin, boed ar sail amser llawn neu ran amser.

7.2 Addysg statudol

Yn y mwyafrif llethol o achosion, cynigir lle i blant yn unol â'r ysgol a ffefrir gan rieni/gofalwyr. Fodd bynnag, os nad yw plentyn yn gallu cael eu derbyn i'r ysgol a ffefrir, gall rhieni/gofalwyr ddewis apelio wrth banel annibynnol.

Gall rhieni/gofalwyr dderbyn lle a gynigiwyd mewn ysgol arall tra'u bod yn mynd ar drywydd lle yn yr ysgol a ffefrir.

Nid yw apelio'n estyn y cyfnod y bydd plentyn ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol a ffefrir. (Gweler RHAN 1 i gael gwybodaeth am restrau aros.)

Gall rhiant/gofalwr ofyn am le mewn grŵp blwyddyn sy'n wahanol i'r grŵp blwyddyn ar gyfer yr oedran cronolegol. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod y cais yn briodol ond bod y cais yn cael ei wrthod am nad oes lleoedd ar gael yn yr ysgol, bydd y rhiant/gofalwr yn cael cynnig hawl i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio os cynigiwyd lle, ond nid yn y grŵp blwyddyn a ddymunir (h.y. os yw'r lle a gynigiwyd yn y grŵp blwyddyn cronolegol cywir ar gyfer oedran y plentyn).

7.3 Addysg (chweched dosbarth) ôl-16

Fel a nodir yn RHAN 4, yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer derbyniadau ôl-16 i'r chweched dosbarth yn yr ysgolion cymunedol yn y fwrdeistref sirol. Er mai'r ysgolion unigol sy'n gweinyddu'r trefniadau derbyn ar ran yr awdurdod lleol, ac mai hwy sy'n gyfrifol am bennu a chyhoeddi meini prawf mynediad ar gyfer derbyniadau i'r chweched dosbarth, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ymdrin â'r holl apeliadau mewn perthynas â gwrthod lle yn y chweched dosbarth a ffefrir.

Mae'r rhieni/gofalwyr a'r dysgwr yn gallu apelio ar wahân neu ar y cyd. Fodd bynnag, os oes dwy apêl ar wahân, byddant yn cael eu clywed gyda'i gilydd.

7.4 Ystyried a ddylid apelio

Argymhellir yn gryf bod unrhyw unigolyn sy'n ystyried a yw'n mynd i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle yn yr ysgol a ffefrir ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023 yn darllen:

- Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013; a
- Chod Apeliadau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.

Bydd disgwyl i unrhyw un sy'n apelio gyflwyno'u rhesymau dros apelio.

7.5 Apelio

Pwy all apelio?

Yn achos apeliadau sy'n gysylltiedig â phlant o oedran statudol, dim ond rhiant neu ofalwr (gwarcheidwad cyfreithiol) all apelio. Oni bai ei bod eisoes wedi cael ei darparu ar gyfer yr awdurdod lleol, **rhaid** i warcheidwad cyfreithiol gyflwyno dogfennaeth swyddogol, sy'n profi gwarcheidiaeth, ar adeg cyflwyno'r apêl.

Yn achos apeliadau sy'n ymwneud â dysgwyr chweched dosbarth, gall y rhieni/gofalwyr a'r dysgwyr apelio ar wahân neu ar y cyd.

Dim ond os anfonir caniatâd ysgrifenedig priodol gan y rhieni/gofalwyr gyda'r apêl y bydd yr awdurdod lleol yn derbyn apêl gan rywun nad yw'n rhiant/gofalwr.

Amserlenni ar gyfer apelio

Ar gyfer apeliadau sy'n ymwneud â gwrthod lleoedd mewn cylch derbyn, **rhaid** i rieni/gofalwyr (neu ddysgwyr ar gyfer derbyniadau chweched dosbarth) apelio wrth yr awdurdod lleol erbyn y dyddiad cau perthnasol, a nodir isod:

Penderfyniad i wrthod	**Dyddiad pan fo'n rhaid i'r awdurdod lleol gael eich apêl**
Cylch derbyn uwchradd (Blwyddyn 7 ar gyfer mis Medi 2022)	4pm Dydd Mawrth, 29 Mawrth 2022
Cylch derbyn dosbarth Derbyn (Dosbarth Derbyn ar gyfer mis Medi 2022)	4pm Dydd Mawrth, 17 Mai 2022
Cylch derbyn plant iau (Dosbarth Blwyddyn 3 mewn ysgol plant iau ar gyfer mis Medi 2022)	4pm Dydd Mawrth, 17 Mai 2022
Cylch derbyn chweched dosbarth (Blwyddyn 12 ar gyfer mis Medi 2022)	Fan bellaf 14 diwrnod calendr (neu 10 diwrnod gwaith) ar ôl hysbysu'n ysgrifenedig am y penderfyniad
Derbyn/trosglwyddo ar ganol blwyddyn am yr flwyddyn academaidd 2022-2023	Fan bellaf 14 diwrnod calendr (neu 10 diwrnod gwaith) ar ôl hysbysu'n ysgrifenedig am y penderfyniad

Nid oes rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol i ystyried apêl a gyflwynwyd y tu allan i'r amserlenni hyn. Os cyflwynir apêl ar ôl yr amserlenni hyn, bydd yr awdurdod lleol yn disgwyl i reswm/rhesymau manwl gael eu darparu dros gyflwyno'r apêl yn hwyr. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried y rheswm/rhesymau dros gyflwyno'r apêl yn hwyr a bydd yn hysbysu'r apelydd a yw'r apêl hwyr wedi cael ei derbyn ai peidio.

Apelio

Gall rhiant/gofalwr/dysgwr sy'n dymuno cofrestru apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod lle mewn ysgol a ffefrir ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023 gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar rif ffôn 01656 642622. Darperir ffurflen gofrestru apêl, sydd hefyd yn cynnwys canllawiau perthnasol.

7.6 Cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn gan ysgol wirfoddol a gynorthwyir

Fel a nodir yn RHAN 1, nid yr awdurdod lleol sy'n ymdrin â derbyniadau i'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, sef:

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Archesgob John Lewis

Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert
Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath

Bydd angen i rieni/gofalwyr y gwrthodwyd lle i'w plentyn/plant yn un o'r ysgolion hyn, ac sy'n dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol. Bydd manylion perthnasol yn y llythyr hysbysu a geir gan yr ysgol ac ym mholisi derbyn yr ysgol.

7.7 Y broses apeliadau derbyn annibynnol

Cynhelir apeliadau derbyn i ysgolion yn unol â Chod Apeliadau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013, sy'n god statudol.

Bydd yr awdurdod lleol yn atgyfeirio'r apêl at banel apeliadau derbyn annibynnol ar gyfer gwrandawiad.

Mae aelodau o banelau apeliadau derbyn yn llwyr annibynnol ar yr awdurdod lleol. Gwirfoddolwyr ydynt sydd wedi'u hyfforddi'n llawn dan ofynion Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion 2013.

Gweinyddir y broses apeliadau gan Adran Gwasanaethau Cyfreithiol yr awdurdod lleol ac mae aelod o'r adran honno'n gweithredu fel clerc i'r panel.

Trefniadau ar gyfer gwrandawiad y panel apeliadau derbyn

Bydd clerc y panel apeliadau derbyn yn trefnu amser a lle ar gyfer y gwrandawiad.

Bydd rhieni/gofalwyr/dysgwyr yn cael y cyfle i fod yn bresennol yng ngwrandawiad y panel derbyn a chyflwyno'u sylwadau (ar lafar a/neu'n ysgrifenedig) ynglŷn â pham y dylai'r plentyn fynychu'r ysgol a ffefrir. Fodd bynnag, gallant ddewis peidio â bod yn bresennol yn y gwrandawiad apêl derbyn a gadael i'r apêl gael ei hystyried ar sail datganiad ysgrifenedig yn unig.

Bydd yr apêl yn cael ei benderfynu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael os yw rhieni/gofalwyr/dysgwyr wedi dynodi bwriad i fod yn bresennol yn y gwrandawiad apêl ond yn peidio â gwneud hynny, ac yn methu â darparu eglurhad rhesymol dros beidio â bod yn bresennol.

Os nad yw rhieni/gofalwyr/dysgwyr yn gallu bod yn bresennol ar y dyddiad a amserlennwyd ac os nad yw'n rhesymol ymarferol cynnig gwrandawiad wedi'i ohirio, bydd yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael.

Bydd rhieni/gofalwyr/dysgwyr yn cael o leiaf 14 diwrnod (10 niwrnod gwaith) o rybudd ysgrifenedig o wrandawiad y panel apêl, oni bai eu bod yn cytuno â chyfnod byrrach. Dylai'r rhiant/gofalwr/dysgwr gadarnhau hyn yn ysgrifenedig wrth glerc y panel apeliadau derbyn.

Gall cyfaill neu ymgynghorydd neu gyfieithydd ar y pryd ddod gyda rhieni/gofalwyr/dysgwyr i wrandawiad panel apeliadau; fodd bynnag, ni chaniateir i gynghorwyr yr awdurdod lleol fod yn bresennol. Dylai rhieni/gofalwyr/dysgwyr hysbysu clerc y panel apeliadau derbyn ynghylch unrhyw gynrychiolaeth o leiaf saith niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad.

Gwrandawiad a phenderfyniad y panel apeliadau derbyn

Wrth wneud ei benderfyniad, bydd rhwymedigaeth ar y panel apeliadau derbyn i ddilyn Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion 2013.

Bydd y panel apeliadau derbyn yn mynd ati yn gyntaf i ystyried yr achos a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â pheryglu'r addysg effeithlon a ddarperir yn yr ysgol a defnydd effeithlon o adnoddau, pe bai plentyn arall yn cael ei dderbyn i'r grŵp blwyddyn perthnasol.

Os yw'r panel apeliadau derbyn yn derbyn yr achos a gyflëwyd gan yr awdurdod lleol, bydd y panel wedyn yn ystyried yr achos a gyflwynwyd gan y rhiant(rhieni)/gofalw(y)r/dysgwr ac yn penderfynu a yw rhinweddau'r achos yn gwrthbwyso'r achos a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol.

Dylai rhieni/gofalwyr nodi mai pwerau cyfyngedig sydd gan banel apeliadau derbyn i wrthdroi penderfyniad gan yr awdurdod lleol i wrthod derbyn plentyn lle mae'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau meithrin yn berthnasol.

Mae penderfyniad y panel apeliadau derbyn yn gyfreithiol rwymol. Mae hyn yn golygu, os yw apêl yn llwyddiannus, rhaid i'r plentyn/dysgwr gael ei dderbyn i'r ysgol.

7.8 Apelio am yr eildro

Ar y cyfan nid oes gan rieni/gofalwyr hawl i ail apêl mewn perthynas â'r un ysgol a'r un flwyddyn academaidd ac eithrio dan yr amgylchiadau canlynol:

- os oedd beiau yn y broses apelio gyntaf a bod posibilrwydd sylweddol y gallai hynny fod wedi effeithio ar y canlyniad (gall hyn fod ar argymhelliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru); neu

- fod cais newydd wedi cael ei dderbyn am bod newid sylweddol neu berthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r rhiant/gofalwr neu'r plentyn a bod y cais hwnnw wedi cael ei wrthod hefyd. Enghreifftiau cyffredin o achosion pan fo cais newydd yn cael ei ystyried yw lle mae teulu wedi symud tŷ neu lle ceir rhesymau meddygol newydd sy'n berthnasol i'r dewis o ysgol.

Gall rhieni/gofalwyr/dysgwyr sy'n apelio'n aflwyddiannus ailymgeisio am le yn yr un ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd ddiweddarach (ond yn amodol ar y graddfeydd amser a nodir yn yr amserlenni yn RHAN 2). Bydd gan rieni/gofalwyr yr hawl i apelio os gwrthodir y cais hwnnw hefyd.

7.9 Apelau a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021, derbyniodd yr awdurdod lleol 57 o apeliadau gan rieni/gofalwyr yr oedd eu ceisiadau i blant fynychu ysgolion cymunedol (os yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn) yn aflwyddiannus.

Sector	Ceisiadau derbyn canol blwyddyn am le yn 2020-2021	Ceisiadau derbyn canol blwyddyn am le ym mis Medi 2021	Cais cylch derbyn ar gyfer Medi 2021
Primary	**23** 8 tynnu'n ôl 3 llwyddiannus 12 yn aflwyddiannus	**1** 1 tynnu'n ôl	**21** 2 tynnu'n ôl 1 llwyddiannus 18 yn aflwyddiannus
Secondary	**3** 2 tynnu'n ôl 1 yn aflwyddiannus	**1** 1 yn aflwyddiannus	**8** 1 llwyddiannus 7 yn aflwyddiannus

17. Gwybodaeth am ysgolion, cysylltiadau a derbyniadau

Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr yn Ionawr 2021 yn ddisgyblion prif ffrwd a disgyblion mewn unrhyw ddarpariaethau arbenigol yn yr ysgol. Mae'r holl ddata arall yn ymwneud â disgyblion prif ffrwd a chymwysiadau yn unig.

17.1 Ysgolion cynradd - cymunedol - cyfrwng Saesneg

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd Abercerdin	Mrs H Gentle Kenry Street, Evanstown Gilfach Goch, Porth CF39 8RS 01656 815535 admin@abercerdinps.bridgend.cymru	3-11	30	148	197	27	30
Ysgol Gynradd Afon y Felin	Ms N Williams Heol-y-Parc North Cornelly Bridgend CF33 4PA 01656 815750 admin@afonyfelinps.bridgend.cymru	3-11	19	124	138	20	19
Ysgol Gynradd Betws	Mrs P Schofield Betws Road Bettws Bridgend CF32 8YD 01656 815650 admin@betwsps.bridgend.cymru	3-11	30	190	209	14	30

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd Blaengarw	Mrs P Schofield Station Street Blaengarw Bridgend CF32 8BA 01656 815550 admin@blaengarwps.bridgend.cymru	3-11	24	157	195	21	24
Ysgol Gynradd Bracla	Mrs K John Brackla Way Brackla Bridgend CF31 3EZ 01656 815570 admin@bracklaps.bridgend.cymru	3-11	45	290	330	48	45
Ysgol Gynradd Bryncethin	Mr R Bailey Heol Canola Bryncethin Bridgend CF32 9TH 01656 815840 admin@bryncethinps.bridgend.cymru	3-11	34	232	269	38	34
Ysgol Gynradd Brynmenyn	Miss K Jones Heol Sarah Jayne Howell Tondu Bridgend CF32 9FB 01656 815850 admin@brynmenynps.bridgend.cymru	3-11	60	343	420	45	60

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Fabanod Bryntirion	Ms K Pryse Bryngolau Bryntirion Bridgend CF31 4DD 01656 815860 admin@bryntirionis.bridgend.cymru	3-7	40	109	143	37	40
Ysgol Gynradd Caerau	Mr J Bibby Library Road Caerau Maesteg CF34 OPA 01656 815830 admin@caeraups.bridgend.cymru	3-11	45	385	409	61	45
Ysgol Gynradd Cefn Cribwr	Mr S Howells Cefn Road Cefn Cribwr Bridgend CF32 OAW 01656 815645 admin@cefncribbwrps.bridgend.cymru	3-11	20	169	126	13	20
Ysfol Fabanod Cefn Glas	Mrs S Johns St Winifred's Road Cefn Glas Bridgend CF31 4PL 01656 815690 admin@cefnglasis.bridgend.cymru	3-7	66	149	180	39	66

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd Coety	Mr J Lewis Ffordd yr Hebog Parc Dderwen Bridgend CF35 6DH 01656 754990 admin@coetyps.bridgend.cymru	3-11	60	402	416	72	60
Ysgol Gynradd Corneli	Mr A Mills Greenfield Terrace North Cornelly Bridgend CF33 4LW 01656 754870 admin@cornelips.bridgend.cymru	3-11	46	231	242	36	46
Ysgol Gynradd Llangrallo	Mrs S Hurry Main Road Coychurch Bridgend CF35 5HN 01656 815880 admin@coychurchps.bridgend.cymru	3-11	19	134	133	18	19
Ysgol Gynradd Croesty	Mr A Poole (hyd fis Tachwedd 2022) Ms C Nicholas (o fis Tachwedd 2022) Coychurch Road Pencoed Bridgend CF35 5LY 01656 815890 admin@croestyps.bridgend.cymru	3-11	30	190	205	18	30

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd Cwmfelin	Mrs J Morgan Maesteg Road Cwmfelin Maesteg CF34 9LD 01656 815525 admin@cwmfelinps.bridgend.cymru	3-11	30	190	208	24	30
Ysgol Gynradd Ffaldau	Mrs P Schofield Ivor Street Pontycymmer Bridgend CF32 8HW 01656 815870 admin@ffaldaups.bridgend.cymru	3-11	30	128	214	21	30
Ysgol Gynradd Garth	Mrs A Hatch-Walker Mission Road Garth Maesteg Bridgend CF34 OND 01656 815590 admin@garthps.bridgend.cymru	3-11	30	175	227	22	30
Ysgol Gynradd Litchard	Mr J Phillips Garfield Avenue Litchard Bridgend CF31 1QB 01656 815685 admin@litchardps.bridgend.cymru	3-11	60	419	420	59	60

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Iau Llangewydd	Mr N Clode Llangewydd Road Bridgend CF31 4JT 01656 815530 admin@llangewyddjs.bridgend.cymru	7-11	90	354	357	85	90
Ysgol Gynradd Llangynwyd	Mr C Jones Heol Cadrawd Llangynwyd Maesteg CF34 9TE 01656 815565 admin@llangynwydps.bridgend.cymru	3-11	11	93	115	10	11
Ysgol Gynradd Maes yr Haul	Mr K Stroud Ffordd Tirion Broadlands Bridgend CF31 5EG 01656 815600 admin@maesyrhaulps.bridgend.cymru	3-11	75	451	508	57	75
Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig	Mr N Davies Pwllygath Street Kenfig Hill Bridgend CF33 6ET 01656 815760 admin@mcp.bridgend.cymru	3-11	60	387	397	55	60

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd Nantyffyllon	Mrs N Goggin Garnwen Terrace Nantyffyllon Maesteg Bridgend CF34 OET 01656 815740 admin@nantyfyllonps.bridgend.cymru	3-11	40	216	216	26	40
Ysgol Gynradd Nant-y-moel	Mrs C Harris Gwendoline Street Nantymoel Bridgend CF32 7PL 01656 815670 admin@nantymoelps.bridgend.cymru	3-11	30	177	232	30	30
Ysgol Gynradd Y Drenewydd	Mrs R John New Road Porthcawl CF36 5BL 01656 815780 admin@newtonps.bridgend.cymru	3-11	34	197	235	13	34
Ysgol Gynradd Notais	Mrs A Thomas Suffolk Place Porthcawl CF36 3ED 01656 815540 admin@nottageps.bridgend.cymru	3-11	60	357	417	38	60

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd Bro Ogwr	Mrs J Colsey Aber Road Ogmore Vale Bridgend CF32 7AJ 01656 815640 admin@ogmorevaleps.bridgend.cymru	3-11	53	300	360	27	53
Ysgol Gynradd Hengastell	Mrs C Littlewood South Street Bridgend CF31 3ED 01656 815790 admin@oldcastleps.bridgend.cymru	3-11	60	393	370	61	60
Ysgol Gynradd Pencoed	Mr A Raymond Penprysg Road Pencoed Bridgend CF35 6RH 01656 815730 admin@pencoedps.bridgend.cymru	3-11	72	543	510	69	72
Ysgol Gynradd Pen-y-bont	Mr R Owen Minerva Street Bridgend CF31 1TD 01656 754860 admin@penybontps.bridgend.cymru	3-11	45	303	323	37	45

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd y Pîl	Mr N Pryce Pyle Inn Way Pyle Bridgend CF33 6AB 01656 815630 admin@pilps.bridgend.cymru	3-11	30	192	222	27	30
Ysgol Gynradd Plasnewydd	Ms D Jones Castle Street Maesteg Bridgend CF34 9UN 01656 815770 admin@plasnewyddps.bridgend.cymru	3-11	45	215	307	27	45
Ysgol Gynradd Porthcawl	Ms J Rowley Meadow Lane Porthcawl CF36 5EY 01656 815660 admin@porthcawlps.bridgend.cymru	3-11	25	167	199	23	25
Ysgol Gynradd Tondu	Mrs J Prelogauskas Meadow Street Aberkenfig Bridgend CF32 9BE 01656 815720 admin@tondups.bridgend.cymru	3-11	42	194	249	18	42

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd Trelales	Mr A Morrison Well Street Laleston Bridgend CF32 0LF 01656 815610 admin@trelalesps.bridgend.cymru	3-11	30	197	199	27	30
Ysgol Gynradd Tremains	Mrs D Todd Channel View Brackla Bridgend CF31 2NL 01656 815900 admin@tremainsps.bridgend.cymru	3-11	65	411	428	52	65
Ysgol Gynradd Tynyrheol	Mr R Edwards 5 Heol Llangeinor Llangeinor Bridgend CF32 8PW 01656 815820 admin@tynyrheolps.bridgend.cymru	3-11	10	44	76	6	10
Ysgol Gynradd Parc y Gorllewin	Mrs S Morgan West Road Nottage Porthcawl CF36 3SN 01656 815510 admin@westparkps.bridgend.cymru	3-11	55	367	380	63	55

17.2 Ysgolion cynradd – a reolir yn wirfoddol – cyfrwng Saesneg

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-Fai	Mr M Street Heol Eglwys Pen y Fai Bridgend CF31 4LX 01656 815930 admin@penyfaips.bridgend.cymru	3-11	30	208	210	33	30

17.3 Ysgolion cynradd – gwirfoddol a gynorthwyir - cyfrwng Saesneg

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Archddiacon John Lewis	Mr J Tarran Brackla Way Brackla Bridgend CF31 2JS 01656 815520 admin@archdeaconjohnlewisps.bridgend.cymru	3-11	30	145	208	11	30

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	Mr L Watkins Llangewydd Road Bridgend CF31 4JW 01656 815560 admin@stmaryscps.bridgend.cymru	3-11	30	223	216		30
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig	Mrs N Kelly-Fisher Monica Street Maesteg Bridgend CF34 9AY 01656 815585 admin@stm&stpcps.bridgend.cymru	3-11	25	200	207	26	25
Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Robert	Mrs Carmen Beveridge Dan-y-Lan Aberkenfig Bridgend CF32 9AB 01656 815515 admin@strobertscps.bridgend.cymru	4-11	22	179	129	9	22

17.4 Ysgolion cynradd – cymunedol – cyfrwng Cymraeg

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau blwyddyn derbyn Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Cynwyd Sant	Mrs S G Richards Pen-yr-Ysgol Maesteg Bridgend CF34 9YE 01656 815615 admin@cynwydsant.pen-y-bont.cymru	3-11	45	254	306	34	45
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	Mrs S Jayne Princess Way Brackla Bridgend CF31 2LN 01656 815580 admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru	3-11	54	354	378	61	54
Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd	Mrs C Coulthard Betws Road Bettws CF32 8YD 01656 815810 admin@calonycymoed.pen-y-bont.cymru	3-11	30	178	210	25	30
Ysgol y Ferch o'r Sgêr	Ms D Nicholls (pennaeth dros dro) Greenfield Terrace North Cornelly Bridgend CF33 4LW 01656 754865 admin@yfos.pen-y-bont.cymru	3-11	33	139	197	22	33

17.5 Ysgolion uwchradd - cymunedol – cyfrwng Saesneg

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau Blwyddyn 7 Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Brynteg	Mr R Davies Ewenny Road Bridgend CF31 3ER 01656 815559 admin@bryntegschool.bridgend.cymru	11-19	333	1169	1795	287	333
Ysgol Gyfun Bryntirion	Mr R Pawar Merlin Crescent Cefn Glas Bridgend CF31 4QR 01656 641100 admin@bryntirioncs.bridgend.cymru	11-19	210	1056	990	250	210
Coleg Cymunedol Y Dderwen	Mrs T Wellington Heol-yr-Ysgol Tondu Bridgend CF32 9EG 01656 815920 admin@ccyd.bridgend.cymru	11-19	276	1152	1400	224	276

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau Blwyddyn 7 Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gyfun Cynffig	Mrs H Castle East Avenue Kenfig Hill Bridgend CF33 6NP 01656 740294 admin@cynffigcs.bridgend.cymru	11-19	180	708	905	150	180
Ysgol Maesteg	Mrs H Jones Ffordd Dysgu Maesteg Bridgend CF34 OLQ 01656 815950 admin@maestegschool.bridgend.cymru	11-19	228	926	1125	207	228
Ysgol Gyfun Pencoed	Mr E Jones Coychurch Road Pencoed Bridgend CF35 5LY 01656 867100 admin@pencoedcs.bridgend.cymru	11-19	214	756	930	161	214
Ysgol Gyfun Porthcawl	Mr A Slade 52 Park Avenue Porthcawl CF36 3ES 01656 774100 admin@porthcawlcs.bridgend.cymru	11-19	246	975	1300	203	246

17.6 Ysgolion uwchradd - a reolir yn wirfoddol – cyfrwng Saesneg

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau Blwyddyn 7 Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath	Mr A Howells Oak Tree Way Brackla Bridgend CF31 2DN 01656 815500 admin@archmcgrathcs.bridgend.cymru	11-19	131	730	675	155	131

17.7 Ysgolion uwchradd – cymunedol – cyfrwng Cymraeg

			Grwpiau oedran statudol yn unig				
Enw ysgol	**Enw'r pennaeth a manylion cyswllt**	**Ystod oedran disgyblion**	**NDC 2021-2022**	**Disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2021**	**Capasiti ysgol Ionawr 2021**	**Ceisiadau Blwyddyn 7 Medi 2021**	**NDC 2022-2023**
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	Mr M Jones Llangynwyd Maesteg CF34 9RW 01656 815700 admin@ygglangynwyd.pen-y-bont.cymru	11-19	165	548	640	130	165